

# Rhyddid mynegiant:

## canllaw i ddarparwyr addysg uwch ac undebau myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission

# Cynnwys

Tudalen 4 **Am y canllaw hwn**

Tudalen 7 **Adran 1: Cyflwyniad**

Tudalen 10 **Adran 2: Rhyddid mynegiant yng nghyfraith y DU**

Tudalen 16 **Adran 3: Ble mae'r gyfraith yn caniatáu cyfyngiadau ar ryddid mynegiant?**

Tudalen 23 **Adran 4: Dyletswyddau cyfreithiol a all ryngweithio â rhyddid mynegiant**

Tudalen 28 **Adran 5: Sut y gall darparwyr addysg uwch ac undebau myfyrwyr gydweithio ar ryddid lleferydd**

Tudalen 30 **Adran 6: Canllaw i ddarparwyr addysg uwch sy'n gwneud penderfyniadau ar sut i amddiffyn rhyddid lleferydd**

Tudalen 34 **Adran 7: Cwestiynau allweddol mewn perthynas â rhyddid mynegiant**

Tudalen 45 **Atodiad A: Rheoleiddio darparwyr addysg uwch ac undebau myfyrwyr mewn perthynas â rhyddid lleferydd**

Tudalen 49 **Atodiad B: Troseddau perthnasol**

Tudalen 50 **Atodiad C: Darparwyr addysg uwch a dyletswyddau cyfreithiol**

Tudalen 52 Darllen pellach

Tudalen 54 Cysylltiadau

# Am y canllaw hwn

## Am beth yw'r canllaw hwn?

Mae'r canllaw hwn yn ymwneud â'r hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud ar ryddid mynegiant yng Nghymru a Lloegr, yn benodol mewn prifysgolion a sefydliadau addysg uwch eraill. Mae'n cynnig cyngor ymarferol ar sut i amddiffyn rhyddid lleferydd ac yn ei gwneud yn glir i fyfyrwyr beth ddylent ei ddisgwyl gan eu sefydliadau. Mae'n cynnwys:

- Pob cyfarwyddyd sydd ar gael ar hyn o bryd sy'n helpu i amddiffyn rhyddid lleferydd ar y campws.
- Gwybodaeth am y deddfau perthnasol a materion cyfreithiol i'w hystyried.
- Diffiniadau ar gyfer rhai termau sy'n gysylltiedig â rhyddid mynegiant, megis 'lleferydd casineb', 'rhybuddion sbardun' a 'thynnu platfformau'.
- Astudiaethau achos i helpu darparwyr addysg uwch ac undebau myfyrwyr i hyrwyddo ac amddiffyn rhyddid lleferydd

## I bwy ydyw?

Bydd y canllaw hwn yn fwyaf defnyddiol i:

- gyrff llywodraethu prifysgolion a darparwyr addysg uwch eraill
- ymddiriedolwyr undebau myfyrwyr

Efallai y bydd o ddiddordeb i eraill, gan gynnwys staff academaidd, swyddogion etholedig undebau myfyrwyr, myfyrwyr unigol a siaradwyr.

## Pam ydym ni wedi ei gynhyrchu?

Mae'r hawl i fynegi barn a syniadau yn rhydd, heb ofn ymyrraeth neu erledigaeth, yn rhan hanfodol o ddemocratiaeth. Mae dadlau a sgwrsio parchus yn ein helpu ni i herio gwahaniaethu, cael gwared ar anoddefgarwch ac agweddau niweidiol, a chreu cymunedau cryf a phositif.

Mae rhyddid mynegiant yn rhan allweddol o brofiad addysg uwch. Mae rhannu syniadau yn hanfodol er mwyn dysgu, ac yn caniatáu i fyfyrwyr feddwl yn feirniadol, herio ac ymgysylltu â gwahanol safbwyntiau. Yng Nghymru a Lloegr, mae gan y rhan fwyaf o brifysgolion a darparwyr addysg uwch eraill a ariennir yn gyhoeddus ddyletswyddau cyfreithiol i ddiogelu rhyddid lleferydd.

**Yn 2017, cynhaliodd y Cydbwyllgor ar Hawliau Dynol ymholiad i gyflwr rhyddid lleferydd ym mhrifysgolion y DU.** Canfuwyd, er nad oedd cyfyngu ar ryddid mynegiant yn broblem eang, roedd pryderon ynglŷn â chynydd ym miwrocratiaeth, a hunan-sensoriaethu posibl gan fyfyrwyr ar y campws o ganlyniad i'r canllawiau ar ddyletswydd Atal. Roeddent hefyd yn tynnu sylw at agweddau anoddefgar a phrotestio treisgar fel rhwystrau posibl i ryddid mynegiant, yn ogystal â gwrthdaro posibl mewn dehongli ac ardaloedd llwyd mewn rhai cyfreithiau a chanllawiau presennol.

Ym mis Mai 2018, yng ngoleuni'r pryderon hyn, trefnodd y Gweinidog Prifysgolion gynhadledd i arweinwyr yn y sector addysg uwch. Roeddent yn cytuno y dylai'r sector gefnogi'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i ddatblygu canllawiau newydd ar ryddid mynegiant.

Rydym wedi gweithio gyda sefydliadau o'r sector addysg uwch a thu hwnt, i ddwyn ynghyd y dyletswyddau, y risgiau, y materion cyfreithiol a'r rheoleiddio o amgylch rhyddid lleferydd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys: yr Adran Addysg, y Swyddfa Gartref, y Comisiwn Elusennau, y Swyddfa Myfyrwyr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, y Comisiwn Ymyrryd ag Eithafiaeth, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS), Universities UK, independentHE a GuildHE.

Er bod pob un o'r sefydliadau partner hyn yn ymdrin â'r materion hyn o wahanol safbwyntiau, maent yn rhannu'r syniadau craidd a nodir isod. Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi rhoi eu hamser a'u harbenigedd i ddatblygu'r canllaw hwn.

**Noder:** Nid yw'r canllaw hwn yn disodli'r canllawiau rheoleiddio neu statudol sy'n bodoli eisoes sy'n ymwneud â chyfraith elusennau na'r ddyletswydd Atal, a dylai darllenwyr gyfeirio at y dogfennau hynny, a restrir yn **Darllen Pellach** am ganllaw swyddogol a chynhwysfawr i'w dyletswyddau cyfreithiol.


## Syniadau craidd a phwyntiau allweddol

Mae'r canllaw hwn yn cwmpasu nifer o faterion ond mae'n yn ymdrin â nhw i gyd gyda'r un pum syniad craidd:

1. Mae gan bawb yr hawl i ryddid mynegiant dan y gyfraith.
2. Dylai darparwyr addysg uwch bob amser weithio i ehangu trafodaeth a herio, a byth eu cyfyngu.
3. Dylai unrhyw benderfyniad am siaradwyr a digwyddiadau geisio hyrwyddo a diogelu'r hawl i ryddid mynegiant.
4. Mae protestio heddychlon yn ddull mynegiant gwarchodedig; fodd bynnag, ni ddylid caniatáu i brotest stopio dadl na chyfyngu hawliau eraill.
5. Ni ddylid camddefnyddio rhyddid mynegiant at ddibenion casineb na chulfarn heb wrthwynebiad. Dylai darparwyr addysg uwch bob amser anelu at annog dadl gytbwys a pharchus.

### Pwyntiau allweddol:

- Mae gan bawb yr hawl i fynegi a derbyn barn a syniadau, gan gynnwys y rhai a allai 'digio, synnu neu aflonyddu eraill'.
- Mae rhai amgylchiadau lle mae cyfraith y DU yn cyfyngu ar yr hawl i ryddid mynegiant, er enghraifft, er mwyn amddiffyn diogelwch cenedlaethol neu atal troseddau (gweler **adran 3**).
- Mae amddiffyn rhyddid mynegiant yn ofyniad cyfreithiol i'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg uwch. Mae gan undebau myfyrwyr rôl i'w chwarae hefyd, er bod eu dyletswyddau cyfreithiol yn wahanol (gweler **adran 2**).
- Mae angen i ddarparwyr addysg uwch fod â chod sy'n nodi eu polisïau a'u gweithdrefnau sy'n ymwneud â siaradwyr allanol, a sicrhau nad yw eu gweithdrefnau yn creu rhwystrau dianghenraid i ryddid lleferydd. Mae angen iddynt hefyd sicrhau bod pob myfyriwr yn ymwybodol o'r cod (gweler **adran 2.2**).
- Y man cychwyn ddylai fod y gall unrhyw ddigwyddiad mynd yn ei flaen, ond mae'n rhaid i ddarparwyr addysg uwch ystyried eu holl ddyletswyddau cyfreithiol yn ofalus (gweler **adran 6**).
- Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg uwch ac undebau myfyrwyr yn elusennau cofrestredig ac mae ganddynt ddiben elusennol i hybu addysg myfyrwyr er lles y cyhoedd. Mae rhyddid lleferydd yn rhan bwysig o fodloni'r pwrpas hwn (gweler **adran 3.3**).



# Adran 1: Cyflwyniad

Mae’r adran hon yn egluro beth yw rhyddid mynegiant a sut mae’n berthnasol i addysg uwch.

# 1.1 Beth yw rhyddid mynegiant?

Mae gan bawb yr hawl i ryddid mynegiant. Mae hyn yn golygu bod gan bawb yr hawl i fynegi syniadau a barn gyfreithlon yn rhydd, yn lleferydd neu'n ysgrifenedig, heb ymyrraeth gan y wladwriaeth neu gyrff eraill sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus, gan gynnwys y rhan fwyaf o ddarparwyr addysg uwch.[1] Mae hyn yn wir hyd yn oed pan fydd y syniadau neu'r farn yn 'digio, synnu neu aflonyddu'[2] eraill.

Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi disgrifio'r hawl i ryddid mynegiant fel un o 'seiliau hanfodol cymdeithas ddemocrataidd'[3] oherwydd mae'n rhoi hawl i bawb gyfnewid gwybodaeth, dadlau syniadau a mynegi barn, gan gynnwys barn wleidyddol. Mae dadl a sgwrs parchus yn ein helpu ni i herio gwahaniaethu, cael gwared ag anoddefgarwch ac agweddau niweidiol, a chreu cymunedau cryf a phositif.

Mae rhyddid mynegiant hefyd yn cefnogi datblygiad artistig, gwyddonol a masnachol. Pan fyddwn yn sôn am ryddid mynegiant, rydym yn golygu'r gair llafar ac ysgrifenedig, yn ogystal â gweithredoedd, ystumiau ac arddangos delweddau sydd wedi'u bwriadu i ddangos ystyr. Yn y canllaw hwn, mae 'rhyddid mynegiant' hefyd yn cynnwys 'rhyddid lleferydd'.

---

1 Gweler er enghraifft, *R (Ben-Dor) v University of Southampton* [2016] EWHC 953 mewn perthynas â phrifysgolion cyhoeddus. Nid yw'r sefyllfa gyfreithiol ynghylch p'un a yw darparwyr addysg uwch eraill yn awdurdodau cyhoeddus at ddiben Deddf Hawliau Dynol 1998 heb ei brofi.

2 *Delfi As v Estonia* [2014].

3 *Handyside v y Deyrnas Unedig* [1976].

# 1.2 Sut mae'n berthnasol i addysg uwch?

Mae 'addysg uwch' yn disgrifio ystod eang o sefydliadau. Mae'n cynnwys prifysgolion 'traddodiadol', darparwyr llai a mwy arbenigol neu alwedigaethol, yn ogystal ag undebau myfyrwyr, cymdeithasau a grwpiau eraill sy'n gweithredu mewn amgylchedd campws. Bydd y ffordd y sefydlir pob sefydliad yn pennu pa ddeddfau sy'n berthnasol iddo. Mae hyn yn golygu bod y ffordd y mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw reoli ac amddiffyn rhyddid lleferydd yn amrywio.

Mae'r canllaw hwn yn nodi'r dyletswyddau cyfreithiol ar gyfer y mwyafrif helaeth o brifysgolion a darparwyr addysg uwch (ar y cyd Darparwyr Addysg Uwch) ac undebau myfyrwyr eraill. Gall darparwyr addysg uwch ac undebau myfyrwyr sydd â rhwymedigaethau cyfreithiol gwahanol dal i ddefnyddio'r egwyddorion cyffredinol a amlinellir yn y canllawiau hyn i hyrwyddo a diogelu rhyddid mynegiant.

**Dylai darparwyr addysg uwch gyfeirio at Atodiad C i wirio pa ddeddfau sy'n berthnasol iddynt.**

Mae rhyddid mynegiant yn rhan allweddol o brofiad addysg uwch.[4] Mae rhannu syniadau yn rhydd yn hanfodol er mwyn dysgu, ac yn caniatáu i fyfyrwyr feddwl yn feirniadol, herio ac ymgysylltu â gwahanol safbwyntiau. Felly, dylai darparwyr addysg uwch annog trafodaeth a chyfnewid barn ar faterion anodd a dadleuol.

Mae gan y rhan fwyaf o brifysgolion a darparwyr addusg uwch eraill a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru a Lloegr ddyletswydd gyfreithiol i amddiffyn rhyddid mynegiant ar gyfer eu haelodau, myfyrwyr a gweithwyr ac ar gyfer siaradwyr sy'n ymweld. Mae gan undebau myfyrwyr hefyd rôl bwysig i'w chwarae wrth amddiffyn rhyddid mynegiant, ond mae eu dyletswyddau cyfreithiol yn wahanol.

Fodd bynnag, gellir cyfyngu ar ryddid mynegiant yn ôl y gyfraith os oes angen, er enghraifft, i atal trosedd, ar gyfer diogelwch cenedlaethol neu ddiogelwch y cyhoedd, neu i atal gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon.

---

[4] Yn y canllaw hwn, mae 'addysg uwch' yn cyfeirio at unrhyw un o'r cyrsiau a grybwyllir yn Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988, sy'n cynnwys graddau cyntaf.



# Adran 2: Rhyddid mynegiant yng nghyfraith y DU

Mae'r adran hon yn esbonio:

- sut y mae'n rhaid i ddarparwyr addysg uwch amddiffyn rhyddid mynegiant yn ôl y gyfraith
- sut mae'r gwahanol ddeddfwriaeth ar ryddid mynegiant yn gweithio gyda'i gilydd, a
- sut mae hyn yn berthnasol i undebau myfyrwyr.

# 2.1 Beth yw'r dyletswyddau cyfreithiol ar ddarparwyr addysg uwch i amddiffyn rhyddid mynegiant?

Mae dau brif ddarn o ddeddfwriaeth sy'n gofyn i ddarparwyr addysg uwch i amddiffyn rhyddid mynegiant: Deddf Addysg (Rhif 2) 1986 a Deddf Hawliau Dynol 1998.[5] Os nad yw darparwyr addysg uwch yn bodloni eu dyletswyddau cyfreithiol dan y deddfau hyn, gellir eu cymryd i'r llys.

## Deddf Hawliau Dynol 1998

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn dweud bod yn rhaid i bob corff cyhoeddus gydymffurfio â'r hawliau a nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR).[6] Mae hyn yn cynnwys Erthygl 10, sy'n amddiffyn yr hawl i ryddid mynegiant. Mae Erthygl 10 yn amddiffyn eich hawl i farn a'i fynegi yn rhydd heb ymyrraeth gan gyrff cyhoeddus. Mewn perthynas â rhyddid mynegiant, mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg uwch a ariennir yn gyhoeddus yn debygol o fod yn gyrff cyhoeddus at ddibenion Deddf Hawliau Dynol 1998.[7]

**Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol**

(1) Mae gan bawb yr hawl i ryddid mynegiant. Bydd yr hawl hon yn cynnwys rhyddid i gael barn ac i dderbyn a rhoi gwybodaeth a syniadau heb ymyrraeth gan awdurdod cyhoeddus ac ni waeth beth fo'r ffiniau. Ni fydd yr Erthygl hon yn atal Gwladwriaethau rhag gorfodi trwyddedu mentrau darlledu, teledu neu sinema.

(2) Gall ymarfer y rhyddid hyn, gan eu bod yn cynnwys dyletswyddau a chyfrifoldebau, fod yn ddarostyngedig i'r fath ffurfioldebau, amodau, cyfyngiadau neu gosbau a ragnodir yn ôl y gyfraith ac sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd, er budd diogelwch cenedlaethol, uniondeb tiriogaethol neu ddiogelwch y cyhoedd, er mwyn atal anhrefn neu drosedd, er mwyn diogelu iechyd neu foesau, er mwyn diogelu enw da neu hawliau eraill, er mwyn atal datgelu gwybodaeth a dderbynnir yn gyfrinachol, neu er mwyn cynnal yr awdurdod a didueddrwydd o'r farnwriaeth.

---

[5] Mae rhyddid lleferydd ym Mhrydain hefyd yn hawl sylfaenol o dan y gyfraith gyffredin: *Derbyshire County Council v Times Newspapers* [1993] AC 534.

[6] Adran 6, Deddf Hawliau Dynol 1998.

[7] Gweler troednodyn 1.

## Pryd all hawliau Erthygl 10 gael eu cyfyngu?

Mae rhai rhesymau pam y gellir caniatáu cyfyngiad ar ryddid mynegiant – maent wedu eu crybwyll yn Erthygl 10 (2) uchod. Dim ond os ydynt yn gallu dangos bod eu gweithred yn gyfreithlon,[8] yn angenrheidiol ac yn gymesur y gall awdurdodau cyhoeddus gyfyngu'r hawl hon (mewn geiriau eraill, ei fod yn briodol ac nid yn fwy nag sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â'r mater) er mwyn diogelu buddiannau ehangach y gymdeithas – er enghraifft, ar gyfer diogelwch cenedlaethol neu er mwyn atal troseddau. Pe gellid cyflawni'r nod mewn ffordd lai cyfyngol – er enghraifft, trwy ddadl agored a herio'r safbwyntiau a fynegwyd – yna byddai'r cyfyngiad ar ryddid lleferydd yn mynd yn groes i Erthygl 10.

Yn gyffredinol, mae'r llysoedd yn dweud na ddylid cyfyngu'r hawl i ryddid mynegiant yn unig oherwydd bydd pobl eraill efallai yn ei chael yn dramgwyddus neu'n sarhaus. Rhaid i'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r llysoedd amddiffyn hawliau Erthygl 10 wrth benderfynu a yw gweithred neu leferydd yn torri'r gyfraith. Mae'r penderfyniad hwn fel arfer yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys cyd-destun y lleferydd a'i bwrpas, yn ogystal â'r union eiriau llafar neu ysgrifenedig.

Mae lleferydd sy'n bwriadu hysbysu yn hytrach na digio yn denu lefel uwch o amddiffyn, hyd yn oed os gellir ei ystyried yn wahaniaethol.[9] Mae'n debygol y bydd safbwynt anoddefgar, sy'n dramgwyddus i rai, yn cael ei ddiogelu os caiff ei fynegi mewn araith wleidyddol neu ddadl gyhoeddus lle mae safbwyntiau gwahanol yn cael eu cyfnewid ac yn agored i'w herio. Fodd bynnag, gall lleferydd golli amddiffyniad Erthygl 10 os caiff ei ddefnyddio i gamddefnyddio hawliau pobl eraill, er enghraifft trwy annog casineb.[10]
I ddysgu mwy am y gwahaniaeth rhwng barnau anoddefgar neu dramgwyddus a amddiffynnir o dan Erthygl 10, a'r rhai nad ydynt, gweler ein canllaw ar **'Rhyddid Mynegiant'**.

Mae'r ECHR hefyd yn cynnwys hawliau eraill a allai fod yn berthnasol i sefyllfaoedd sy'n cynnwys rhyddid mynegiant, gan gynnwys:

- Erthygl 9: hawl i ddal a datgan crefydd neu gred
- Erthygl 11: hawl i ryddid i ymgynnull a chymdeithasu, ac
- Erthygl 14: hawl i osgoi gwahaniaethu wrth fwynhau hawliau'r Confensiwn.

Weithiau gall hawliau siaradwr wrthdaro â hawliau pobl eraill yr effeithir arnynt gan eu barn, er enghraifft, hawl y protestiwr i ryddid mynegiant. Efallai y bydd angen cyfyngu ar ryddid mynegiant rhywun pe byddai'n arwain at dorri hawliau person arall o dan yr ECHR. I ddysgu mwy, **gweler ein canllaw ar hawliau ECHR a sut maent yn cael eu hamddiffyn.**

---

8 Yn y cyd-destun hwn, mar cyfreithlon yn golygu bod y cyfyngiad wedi'i osod gan y gyfraith.

9 *Jersild v Denmarc* [1994].

10 Erthygl 17 ECHR.

## Deddf Addysg (Rhif 2) 1986

Mae Adran 43 o Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986 (dyletswydd adran 43)[11] yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar brifysgolion a darparwyr addysg uwch eraill i gymryd camau 'rhesymol ymarferol' i sicrhau rhyddid lleferydd o fewn y gyfraith ar gyfer eu haelodau, myfyrwyr, gweithwyr a siaradwyr sy'n ymweld.[12]

Mae hyn yn cynnwys sicrhau, cyn belled ag y bo modd, na chaiff unrhyw unigolyn neu grŵp ei stopio rhag defnyddio eiddo'r darparwr addysg uwch am unrhyw reswm sy'n gysylltiedig â chredoau neu farn unigolyn, neu bolisi neu amcanion y grŵp.[13] Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys unrhyw eiddo a ddefnyddir gan undeb myfyrwyr, hyd yn oed os nad yw'r darparwr addysg uwch yn berchen arnynt neu sydd wedi'i leoli ar ei gampws.[14]

Mae dyletswydd adran 43 yn berthnasol i leferydd sydd 'o fewn y gyfraith'. Mae hyn yn golygu nad yw'n cwmpasu lleferydd a fyddai'n drosedd, neu'n torri'r gyfraith sifil, gan gynnwys cyfraith elusennau. Rydym yn esbonio hyn ymhellach yn **adran 3**.

Mae dyletswydd adran 43 yn cyfeirio at ryddid lleferydd, ond nid yw hyn o reidrwydd yn golygu mai dim ond y gair llafar sy'n cael ei gwmpasu. Er nad yw wedi'i brofi yn y llysoedd, mae'n debygol y bydd y diffiniad o leferydd yn cynnwys deunydd ysgrifenedig, wedi'i argraffu ac yn electronig (megis cyfryngau cymdeithasol, e-bost a chyfathrebu digidol arall, sloganau, posteri a thaflenni).[15] Dylai darparwyr addysg uwch ystyried 'rhyddid lleferydd' i gwmpasu dulliau mynegiant ehangach.

## Beth mae hyn yn ei olygu i siaradwyr sy'n ymweld?

Nid yw dyletswydd adran 43 yn golygu bod gan unrhyw grŵp neu siaradwr yr hawl i dderbyn gwahoddiad i siarad â myfyrwyr ar eiddo addysg darparwyr uwch neu yn undebau myfyrwyr. Yr hyn a olygir yw na ddylid atal siaradwr sydd wedi cael gwahoddiad i siarad mewn cyfarfod neu ddigwyddiad arall rhag gwneud hynny oni bai:

- maent yn debygol o fynegi lleferydd anghyfreithlon, neu
- byddai eu presenoldeb yn arwain at y sefydliad yn torri rhwymedigaethau cyfreithiol eraill

ac ni ellir cymryd unrhyw gamau rhesymol ymarferol i leihau'r risgiau hyn.

---

[11] Gweler: **https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1986/61/section/4**.

[12] Deddf Addysg (Rhif 2) 1986, adran 43(1). Gweler **Atodiad C** am fanylion yr holl ddarparwyr addysg uwch y mae'r ddyletswydd adran 43 yn berthnasol iddynt.

[13] Fel uchod, adran 43(2).

[14] Fel uchod, adran 43(8).

[15] Nid yw'r hawl yn y gyfraith gyffredin i 'ryddid lleferydd' wedi'i chyfyngu i'r gair llafar ac mae'n debyg y dehonglir y term cyfreithiol hwn, a ddefnyddir mewn deddfwriaeth, yn y modd hwn, yn ogystal â'i gyd-fynd ag Erthygl 10 ECHR.

# 2.2 Cod ymarfer

Mae dyletswydd adran 43 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu darparwyr addysg uwch gael cod ymarfer (cod) ynglŷn â sicrhau rhyddid lleferydd a'i gadw'n gyfoes.

Rhaid i'r cod gynnwys:

- y gweithdrefnau y mae'n rhaid i aelodau, myfyrwyr a gweithwyr eu dilyn mewn perthynas â chyfarfodydd a gweithgareddau eraill a gynhelir ar y safle, a'r
- ymddygiadau sy'n ofynnol gan unrhyw bobl mewn cysylltiad â'r gweithgareddau hynny.

Rhaid i ddarparwyr addysg uwch gymryd camau i sicrhau bod eu haelodau, myfyrwyr a gweithwyr yn dilyn y cod. Mae hyn yn cynnwys cymryd camau disgyblu, os yn briodol, os nad ydynt yn cydymffurfio â'r cod.[16] Dylai undebau myfyrwyr gydymffurfio â chod eu sefydliad.

Mae'n rhaid i ddarparwyr addysg uwch hefyd gyfathrebu â'u myfyrwyr (o leiaf unwaith y flwyddyn) ynghylch y rhannau o ddyletswydd a chod adran 43 sy'n berthnasol i weithgareddau neu ymddygiad yr undeb myfyrwyr.[17]

Mae egwyddor llywodraethu buddiannau cyhoeddus rhyddid mynegiant hefyd wedi'i chynnwys yn fframwaith rheoleiddiol y Swyddfa Myfyrwyr (OfS); gall methiant sefydliad i gydymffurfio â'i god ymarfer adran 43 ei hun ddangos bod diffyg cydymffurfio ag amod cofrestru.[18] Nodir canllawiau ar yr hyn a allai fod yn 'gamau rhesymol ymarferol' a sut i sicrhau bod cod adran 43 yn cydymffurfio â gofynion Erthygl 10 wedi'u nodi yn **adran 6**.[19]

---

[16] Deddf Addysg (Rhif 2) 1986, adran 43(4).

[17] Deddf Addysg 1994, adran 22(4)(c).

[18] Ceir rhagor o wybodaeth am sut y bydd yr OfS yn rheoleiddio mewn perthynas â rhyddid mynegiant yn **Atodiad A**.

[19] Mae'r Sefydliad Polisi Addysg Uwch wedi cynhyrchu canllaw ar sut i lunio cod ymarfer effeithiol sy'n hyrwyddo lleferydd am ddim: **https://www.hepi.ac.uk/2018/07/19/cracking-code-practical-guide-university-free-speech-policies/**.

## Rhyddid academaidd

Mae rhyddid mynegiant yn berthnasol i egwyddor bwysig rhyddid academaidd, ond ni ddylid eu cymysgu. Mae rhyddid academaidd yn ymwneud ag annibyniaeth ddeallusol academyddion mewn perthynas â'u gwaith, gan gynnwys y rhyddid i ymgymryd â gweithgareddau ymchwil, mynegi eu barn, trefnu cynadleddau a phennu cynnwys y cwrs heb ymyrraeth.

Fel rhan o'u dyletswyddau o dan Erthygl 10 a dyletswydd adran 43, rhaid i ddarparwyr addysg uwch amddiffyn rhyddid mynegiant academyddion a staff. Ni ddylai cwynion a phrotestiadau myfyrwyr arwain at ddarparwyr addysg uwch yn gosod terfynau ar gynnwys cwrs neu ddigwyddiadau siaradwyr a drefnir gan ddarlithwyr. Dylai darparwyr addysg uwch hefyd gymryd camau, megis darparu cefnogaeth i'w staff, lle bo angen er mwyn sicrhau nad yw pwysau cwynion myfyrwyr yn arwain at hunan-sensoriaethu gwaith academaidd. Rhaid iddynt hefyd sicrhau nad yw polisïau mewnol (er enghraifft, polisïau i gydymffurfio â'r ddyletswydd Atal) yn rhwystro rhyddid academaidd yn ormodol.

# 2.3 A oes rhaid i undebau myfyrwyr gydymffurfio â dyletswydd adran 43 ac Erthygl 10 yr ECHR?

Yn wahanol i ddarparwyr addysg uwch, nid yw undebau myfyrwyr yn debygol o fod yn 'awdurdodau cyhoeddus' felly nid oes rhaid iddynt gydymffurfio'n uniongyrchol ag Erthygl 10. Nid yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio'n uniongyrchol â dyletswydd adran 43 chwaith, ond mae'n effeithio ar undebau myfyrwyr mewn dwy ffordd bwysig:

- Mae'n berthnasol i eiddo undebau myfyrwyr. Y rheswm am hyn yw bod rhaid i ddarparwyr addysg uwch gymryd camau i sicrhau bod myfyrwyr, siaradwyr gwadd a staff ar y campws yn gallu siarad yn rhydd o fewn y gyfraith, ac nad ydynt yn cael eu gwrthod i ddefnyddio eiddo'r undebau myfyrwyr oherwydd eu barn.
- Mae'n rhaid i undebau myfyrwyr ddilyn cod ymarfer adran 43 eu darparwyr addysg uwch. Nid yw'r berthynas hon bob amser yn hawdd – mae undebau myfyrwyr fel arfer yn gyrff annibynnol ond gall dyletswydd adran 43 weithiau olygu bod darparwr addysg uwch yn atebol yn anuniongyrchol am gamau eu hundeb myfyrwyr mewn perthynas â rhyddid mynegiant. Gweler **adran 5** am arweiniad ar sut y gall darparwyr addysg uwch ac undebau myfyrwyr gydweithio.

Lle nad yw undeb myfyrwyr neu grŵp myfyriwr arall yn gorff annibynnol, bydd rhaid cydymffurfio â pholisïau a chod ymarfer ei ddarparwr addysg uwch ac adran 43.



# Adran 3: Ble mae'r gyfraith yn caniatáu cyfyngiadau ar ryddid mynegiant?

Mae'r adran hon yn esbonio pryd y caiff lleferydd ei ystyried yn anghyfreithlon a phryd y gall fod angen neu ganiatáu cyfyngiadau ar ryddid mynegiant.

# 3.1 Troseddau

Gall lleferydd gael ei gyfyngu pe byddai'n torri'r gyfraith droseddol. Mae rhai o'r troseddau a all ddigwydd mewn perthynas â lleferydd yn cynnwys:

- lleferydd sy'n achosi ofn neu annog trais[20]
- gweithredoedd sy'n bwriadu neu'n debygol o arwain at gasineb ar sail hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol[21]
- lleferydd sy'n cyfateb i drosedd sy'n gysylltiedig â therfysgaeth,[22] ac
- achosi aflonyddwch, larwm neu ofid i berson.[23]

Mae **Atodiad B** yn rhestr hwy o droseddau sy'n ymwneud â rhyddid mynegiant.

## Astudiaeth Achos

### Aflonyddu anghyfreithlon ar y campws

Yn 2018, plediodd myfyriwr prifysgol yn euog i drosedd aflonyddu wedi'i ysgogi gan hil. Cafodd ei ffilmio yn llafarganu'n hiliol mewn neuadd breswyl a achosodd ofid i breswylydd. Cyfaddefodd i ddefnyddio geiriau bygythiol neu sarhaus yn fwriadol a achosodd drallod mawr i'r dioddefwr. Cafodd y myfyriwr ei euogfarnu ac roedd rhaid iddo dalu £500 mewn iawndal.

# 3.2 Toriadau'r gyfraith sifil

Mae rhai sefyllfaoedd lle mae cyfraith sifil yn cynnig amddiffyniad yn erbyn ymddygiad sarhaus neu aflonyddu. Mae'r rhain yn cynnwys gwahaniaethu neu aflonyddu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Efallai bod rhai barnau yn gyfreithlon i fynegi, ond maent yn anghyfreithlon mewn rhai cyd-destunau megis yn y gweithle.

---

20 Deddf Trefn Gyhoeddus, adran 4.

21 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986, adrannau 18 a 29B.

22 Dan Ddeddf Terfysgaeth 2006 neu Ddeddf Terfysgaeth 2000.

23 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986, yn fwriadol (adran 4A) neu'n anfwriadol (adran 5).

## Deddf Cydraddoldeb 2010

Pan fo darparwyr addysg uwch, undebau myfyrwyr a'u clybiau neu gymdeithasau yn gweithredu fel darparwyr gwasanaeth i aelodau'r cyhoedd, neu fel cymdeithasau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010,[24] efallai y byddant yn atebol am wahaniaethu yn erbyn, neu aflonyddu, eu defnyddwyr gwasanaeth, aelodau a gwesteion.[25] Gall hyn fod yn berthnasol pan fyddant yn croesawu siaradwyr neu'n cynnal digwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd.

## Aflonyddu

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ymddygiad diangen yw aflonyddu sy'n gysylltiedig â rhai nodweddion gwarchodedig,[26] sydd â phwrpas neu effaith:

- tarfu ar urddas person, neu
- creu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, llawn cywilydd neu dramgwyd-dus i'r person hwnnw.

P'un a yw ymddygiad yn aflonyddu ai peidio, nid yw'n seiliedig ar farn y sawl sy'n gwneud y gwyn yn unig. Mae'r llysoedd yn ystyried a yw'n rhesymol i'r ymddygiad gael yr effaith honno, yn ogystal â'r amgylchiadau. Rhaid iddynt gydbwyso hawliau cystadleuol, gan gynnwys yr hawl i ryddid mynegiant y person sy'n gyfrifol.[27]

Ni ellir defnyddio'r darpariaethau aflonyddu i danseilio rhyddid academaidd. Gall profiad dysgu myfyrwyr gynnwys amlygiad i ddeunyddiau cwrs, trafodaethau neu farn siaradwyr eu bod yn credu sy'n sarhaus neu'n annerbyniol, ac mae'n annhebygol y bydd hyn yn cael ei ystyried yn aflonyddu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.[28]

Hefyd, os yw pwnc sgwrs yn glir o ddeunydd sy'n hyrwyddo digwyddiad, yna mae'n annhebygol y bydd pobl sy'n mynychu yn llwyddo mewn cais am aflonyddu yn deillio o farn a fynegir gan y siaradwr.

---

[24] Deddf Cydraddoldeb 2010, adran 29 ac adrannau 101-102.

[25] Efallai y bydd darparwyr addysg uwch yn atebol am aflonyddu yn eu rôl fel cyflogwyr a darparwyr addysg o dan rannau 5 a 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

[26] Mae **Atodiad C** yn nodi pryd y gall darpariaethau aflonyddu Deddf Cydraddoldeb 2010 fod yn berthnasol.

[27] Mae paragraff 116 o'r Nodiadau Esboniadol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi, 'Bydd angen i lysoedd a thribiwnlysoedd barhau i gydbwyso hawliau cystadleuol ar ffeithiau achos penodol; byddai hyn yn cynnwys ystyried gwerth rhyddid mynegiant (fel y nodir yn Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol) a gwerth rhyddid academaidd '.

[28] Gweler: **http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/notes/division/3/2/2/14**.

Felly, mae'n annhebygol yr ystyrir safbwyntiau a fynegir mewn addysgu, dadlau neu drafodaeth ar faterion o ddiddordeb i'r cyhoedd, gan gynnwys cyfathrebu gwleidyddol neu academaidd, yn aflonyddu, hyd yn oed os ydynt yn sarhaus iawn i rai o'r bobl sy'n gwrando, gan y bydd Erthygl 10 yn eu hamddiffyn.

## Gwahaniaethu

Rhaid i ddarparwyr addysg uwch, undebau myfyrwyr a'u clybiau a'u cymdeithasau sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn y ffordd y maent yn trefnu digwyddiadau. Er enghraifft, gweler ein canllaw ar **wahanu rhywedd mewn digwyddiadau a chyfarfodydd**.

Mewn rhai sefyllfaoedd, gall gweithred wahaniaethol darfu ar ryddid mynegiant person yn ogystal â Deddf Cydraddoldeb 2010.

**Gwahaniaethu uniongyrchol** yw pan fydd unigolyn yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchodedig.[29] Er enghraifft, gwrthod gadael i fynychwyr benywaidd ofyn cwestiynau i siaradwyr gwrywaidd gan gyfyngu ar eu hawl i ryddid mynegiant yn ogystal â gwahaniaethu yn eu herbyn yn uniongyrchol ar sail eu rhyw.

**Gwahaniaethu anuniongyrchol** gall gwahaniaethu anuniongyrchol ddigwydd pan fo polisi yn gymwys i bawb, ond yn rhoi grŵp arbennig neu unigolyn dan anfantais oherwydd nodwedd warchodedig. Os bydd hyn yn digwydd, ni fydd y polisi yn anghyfreithlon os gall y person neu'r sefydliad sy'n defnyddio'r polisi ddangos bod rheswm da drosto - hynny yw, ei fod yn 'fodd cymesur o gyflawni nod gyfreithlon'.

**'Lleferydd casineb'**

Defnyddir y term 'lleferydd casineb' yn helaeth, ond nid oes ganddo unrhyw ystyr cyfreithiol. Yn gyffredinol, mae'n disgrifio ffurfiau mynegiant sy'n annog trais, casineb neu wahaniaethu yn erbyn pobl a grwpiau eraill. Mae p'un ai lleferydd casineb yn disgyn y tu allan i amddiffyniad Erthygl 10 ac yn anghyfreithlon ai peidio yn dibynnu ar gyd-destun yr hyn a ddywedir a phryd.

Mae'r gyfraith droseddol yn cydbwyso'r hawl i ryddid mynegiant gyda diogelu unigolion a chymunedau rhag bygythiadau, camdriniaeth ac aflonyddu ar ac all-lein. Lle mae'r llinell hon yn cael ei chroesi, gall y tramgwyddwr gael ei erlyn.

Mae rhestr o'r troseddau a ddefnyddir i erlyn ymddygiad troseddol, a ddisgrifir yn aml fel 'troseddau casineb', yn **Atodiad B**.[30]

---

[29] Gweler: **https://www.equalityhumanrights.com/en/equality-act/protected-characteristics**.

[30] Lluniodd y CPS y canllaw canlynol ar erlyn 'trosedd casineb': **trosedd casineb ar sail hil a chrefydd; trosedd casineb ar sail anabledd**; **trosedd casineb homoffobig, deuffobic a thrawsffobig.**

# 3.3 Cyfraith elusennau

Mae nifer sylweddol o ddarparwyr addysg uwch cofrestredig ac undebau myfyrwyr yn elusennau. Ar gyfer pob sefydliad sy'n elusen, p'un a ydynt yn cael eu rheoleiddio gan y Comisiwn Elusennau ai peidio, mae eu hymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod eu sefydliad yn cydymffurfio â chyfraith yr elusen ac unrhyw ddeddfau eraill sy'n berthnasol iddynt.

Rhaid i ymddiriedolwyr sicrhau bod eu helusen yn gweithredu mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo ei ddibenion elusennol, ac nid unrhyw ddibenion eraill. Ar gyfer y rhan fwyaf o ddarparwyr addysg uwch ac undebau myfyrwyr elusennol, eu diben elusennol fydd i hybu addysg myfyrwyr er lles y cyhoedd. Gallant wneud hyn trwy hyrwyddo, cynnal a chynyddu gwybodaeth myfyrwyr a'u dealltwriaeth o feysydd astudio, sgiliau ac arbenigedd penodol.

Nid yw statws elusennol yn atal undebau myfyrwyr a darparwyr addysg uwch rhag trefnu (neu gefnogi myfyrwyr i drefnu) dadlau a thrafodaethau, neu weithgareddau eraill sy'n annog myfyrwyr i ennill gwybodaeth, dysgu sut i ddadlau a ffurfio barn ar wahanol faterion. Gall annog dadl ar faterion gwleidyddol a materion eraill o ddiddordeb cyhoeddus neu academaidd fod yn rhan bwysig o hyrwyddo addysg.

Er mwyn cwrdd â gofynion y gyfraith elusennau, rhaid i elusennau sy'n hyrwyddo addysg fod yn niwtral yn eu man cychwyn ac ni ddylent hyrwyddo safbwynt penodol, oni bai y byddant yn hyrwyddo addysg er budd y cyhoedd. Rhaid i ymddiriedolwyr gymryd camau i sicrhau bod rhyddid lleferydd a mynegiant yn digwydd mewn amgylchedd agored a hygyrch lle gellir holi a herio safbwyntiau a barnau.

Ar wahân, gall elusennau gyflawni gweithgareddau gwleidyddol – megis ymgyrchu dros newid yn y gyfraith – os yw hyn yn hyrwyddo eu diben elusennol.[31] Gallai hyn gynnwys trefnu dadleuon ar faterion gwleidyddol a chyflwyno datrysiadau gwleidyddol i'w myfyrwyr i bleidleisio arnynt. Fodd bynnag, ni ddylai ymddiriedolwyr undeb myfyrwyr gymryd camau i weithredu neu ymgyrchu i gefnogi datrysiad o'r fath os nad yw hynny'n cefnogi dibenion eu helusen. Gall undebau myfyrwyr ymgyrchu ar faterion gwleidyddol, megis ffioedd dysgu, os yw gwneud hynny yn cefnogi eu diben elusennol o hyrwyddo addysg myfyrwyr.

Ar ben hynny, nid yw cyfraith elusennau yn ei gwneud yn ofynnol i undebau myfyrwyr ddarparu mynediad i bob grŵp allanol i'w digwyddiadau neu gyfleusterau (fel ffeiriau glas) yn enw rhyddid mynegiant.

---

[31] Gweler er enghraifft achos Uchel Lys *Baldry v Feintuck* [1972] 1 WLR 552. Mae'r Comisiwn Elusennau wedi cyhoeddi canllaw ar gyfer elusennau **'CC9: Ymgyrchu a gweithgareddau gwleidyddol ar gyfer elusennau'** y dylai ymddiriedolwyr eu dilyn mewn perthynas â siaradwyr neu ddigwyddiadau.

Yn olaf, gall undebau myfyrwyr ariannu a chefnogi clybiau neu gymdeithasau sydd ag ystod o safbwyntiau gwleidyddol neu barti gwleidyddol, cyhyd â bod hyn yn hyrwyddo eu dibenion elusennol, er enghraifft, drwy hwyluso dadl a thrafodaeth ar faterion gwleidyddol. Nid oes rhaid i undebau myfyrwyr sicrhau bod gan glybiau a chymdeithasau â safbwyntiau gwrthwynebol flaenoriaeth gyfartal, ond mae'n rhaid cynnig cyllid a chymorth arall (er enghraifft, mynediad i fannau) mewn modd sy'n gytbwys ac nid yn anghyfreithlon yn wahaniaethol.

Mae cyfraith elusennau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ymddiriedolwyr undebau myfyrwyr:

- rheoli'r risg o ymddygiad troseddol, gan gynnwys terfysgaeth neu droseddau eraill megis ysgogi casineb hiliol neu grefyddol.
- cydymffurfio â rhwymedigaethau'r gyfraith sifil, er enghraifft, o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- bodloni'r 'gofyniad budd cyhoeddus', sy'n golygu sicrhau bod gweithgareddau'r elusen yn canolbwyntio ar fudd i'r cyhoedd, a
- reoli adnoddau eu helusen yn gyfrifol, er enghraifft, trwy osgoi datgelu asedau, buddiolwyr neu enw da'r elusen i risg gormodol.

Rhaid i ymddiriedolwyr allu dangos sut maen nhw wedi penderfynu lliniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â siaradwr neu ddigwyddiad, pan fyddant yn gwahodd siaradwyr i fynychu.

O gofio rôl bwysig yr undebau myfyrwyr wrth hyrwyddo addysg trwy drafodaeth, mae'n bwysig i ymddiriedolwyr ystyried unrhyw niwed i enw da eu helusen a all godi os byddant yn atal gweithgareddau, megis digwyddiadau siaradwyr arfaethedig, rhag mynd ymlaen, yn ogystal â'r risgiau os ydynt yn caniatáu iddynt ddigwydd.

Er mwyn cydymffurfio â chod ymarfer adran 43 ei ddarparwr addysg uwch, efallai y bydd yn rhaid i'r undeb myfyrwyr gymryd camau i sicrhau bod digwyddiadau siaradwyr yn gallu digwydd.

## Materion allweddol i ymddiriedolwyr ystyried o ran digwyddiadau i areithwyr:

Dylai ymddiriedolwyr fod yn glir ynghylch sut y bydd cynnal y siaradwr neu'r digwyddiad yn hyrwyddo dibenion y sefydliad.

Dylent hefyd sicrhau nad yw cynnal siaradwr neu ddigwyddiad yn debygol o arwain at dorri'r canlynol:

- cyfraith droseddol
- cyfyngiadau cyfraith elusennau ar weithgareddau gwleidyddol ac ymgyrchu, neu
- cyfreithiau neu reolau eraill sy'n berthnasol i'r elusen gan y gallai hyn ddatgelu ei asedau, buddiolwyr neu enw da i risg gormodol (er enghraifft, y risg o gael ei erlyn am ddifenwi neu dorri cyfraith cydraddoldeb).

### Cymdeithasau myfyrwyr

Rhaid i ymddiriedolwyr undeb y myfyrwyr gydymffurfio â'u rhwymedigaethau yn y gyfraith elusennau wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â chyllido a chymorth i gymdeithasau myfyrwyr. Mae hyn yn golygu, ymhlith pethau eraill, fod yn rhaid iddynt sicrhau y defnyddir yr arian a roddir i gymdeithasau myfyrwyr at ddibenion elusennol yr undeb myfyrwyr yn unig ac yn unol â'r gyfraith.

## 3.4 Dyletswydd gofal

Rhaid i ddarparwyr addysg uwch ac undebau myfyrwyr gymryd camau i sicrhau diogelwch myfyrwyr, aelodau, gweithwyr a siaradwyr gwadd, er enghraifft, o dan eu dyletswydd gofal cyfraith gyffredin. Nid yw ddyletswydd adran 43 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg uwch amddiffyn rhyddid lleferydd ar draul diogelwch staff, myfyrwyr neu siaradwyr.

Er enghraifft, byddai'n rhesymol canslo digwyddiad pe na fyddai'r cyfranogwyr yn ddiogel rhag niwed corfforol, er enghraifft, pe bai bygythiad o brotestiadau treisgar. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i'r darparwr ddangos na ellid cymryd camau 'rhesymol ymarferol', megis mwy o ddiogelwch (o fewn cost resymol).



# Adran 4: Dyletswyddau cyfreithiol a all ryngweithio â rhyddid mynegiant

Mae’r adran hon yn egluro’r dyletswyddau cyfreithiol eraill y mae angen i ddarparwr addysg uwch eu hystyied mewn perthynas â rhyddid mynegiant, gan gynnwys dyletswydd Atal a dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

# 4.1 Pa ddyletswyddau cyfreithiol eraill y mae angen i ddarparwyr ddysg uwch ac undebau myfyrwyr eu hystyried mewn perthynas â rhyddid mynegiant?

Mae angen i ddarparwyr addysg uwch ac undebau myfyrwyr ystyried dyletswyddau cyfreithiol eraill sy'n rhyngweithio â rhyddid mynegiant, gan gynnwys dyletswydd Atal a dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Nid yw'r rhain fel rheol yn gofyn am gyfyngiadau ar leferydd cyfreithlon a mathau eraill o fynegiant.

## Dyletswydd Atal

Mae dyletswydd statudol ar y rhan fwyaf o ddarparwyr addysg uwch[32] i roi sylw dyladwy i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i derfysgaeth.[33] Gelwir hyn yn ddyletswydd Atal. Dylai darparwyr addysg uwch gyfeirio at y **Canllawiau Dyletswydd Atal statudol ar gyfer Addysg Uwch** am ganllawiau ar sut mae'n berthnasol iddynt.

Mae'n rhaid i ddarparwyr addysg uwch ystyried y canllawiau statudol hyn wrth gyflawni'r ddyletswydd Atal,[34] a dylent allu dangos sut y maent wedi eu hystyried yn eu penderfyniadau. Mae'r canllawiau statudol yn nodi'r ystyriaethau y dylai darparwyr addysg uwch eu hystyried ond nid yw'n ofynnol gwneud penderfyniad penodol mewn unrhyw achos penodol.

Wrth gyflawni'r ddyletswydd Atal, mae Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg uwch 'roi sylw arbennig' i'w dyletswydd adran 43,[35] ac i bwysigrwydd rhyddid academaidd.[36] Nid yw cydymffurfio â'r ddyletswydd Atal yn atal darparwyr addysg uwch rhag cyflawni eu dyletswydd i amddiffyn rhyddid lleferydd.

---

32 Pob darparwr addysg uwch sydd naill ai'n cael eu hariannu'n gyhoeddus (gan gynnwys pawb sydd wedi cofrestru gyda'r Swyddfa Myfyrwyr) neu sydd â mwy na 250 o fyfyrwyr.

33 Gweler **Atodiad A**.

34 Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, adran 29(2).

35 Fel uchod, Rhan 5, adran 31(2)(a).

36 Fel uchod, Rhan 5, adran 31(2)(b).

Wrth ystyried siaradwyr sy'n mynegi syniadau eithafol, dylai darparwyr fod yn ymwybodol bod dyletswydd a chanllawiau Atal yn berthnasol dim ond os oes perygl y bydd pobl yn cael eu tynnu i derfysgaeth. Mae'r canllawiau yn dweud y dylai darparwyr ystyried yn ofalus a yw'r safbwyntiau sy'n cael eu mynegi yn risgio tynnu pobl i derfysgaeth ac yn rhoi canllawiau ar y math o gamau y gellid eu cymryd i liniaru'r risg hon. Mae **Adran 6** y ddogfen hon yn rhoi enghreifftiau pellach o fesurau y gallai darparwyr eu hystyried er mwyn lliniaru'r risg. Gall darparwyr hefyd gysylltu â'u cydlynwyr Atal am ragor o gyngor.

Gan fod undebau myfyrwyr yn gyrff annibynnol, nid yw'r ddyletswydd Atal yn berthnasol yn uniongyrchol iddynt. Fodd bynnag, o dan y gyfraith elusennau, mae'n rhaid i bob elusen reoli'r risg o ymddygiad troseddol, gan gynnwys terfysgaeth neu droseddau eraill megis ysgogi casineb hiliol neu grefyddol. Mae hyn yn golygu y dylai undebau myfyrwyr ystyried camau tebyg i ddarparwyr addysg uwch i sicrhau eu bod yn hyrwyddo rhyddid lleferydd yn ddiogel mewn modd sy'n rheoli'r risgiau hyn.

Ar wahân i ddigwyddiadau siaradwyr allanol, mae'r canllawiau dyletswydd Atal hefyd yn cynnwys ystod ehangach o ystyriaethau (a nodir yn y canllawiau statudol). Rhaid i sefydliadau ystyried y ddyletswydd ar draws eu holl weithgareddau; mae hyn yn cynnwys hyfforddi staff darparwyr addysg uwch perthnasol i allu adnabod bregusrwydd i gael eu tynnu i derfysgaeth, a gwybod pryd i wneud atgyfeiriadau i raglen Channel.

Fodd bynnag, dylai darparwyr addysg uwch sicrhau nad yw'r ffordd y maent yn cydymffurfio â'r ddyletswydd yn arwain at fyfyrwyr neu staff yn teimlo'n anghyfforddus yn mynegi eu barn wleidyddol neu grefyddol ar y campws. Rydym wedi cynhyrchu canllawiau ar sut y gall prifysgolion yng **Nghymru** a **Lloegr** gydymffurfio â'r PSED mewn perthynas â'r Ddyletswydd Atal, trwy asesu a lliniaru effaith bosibl cynlluniau gweithredu Atal ar gydraddoldeb a chysylltiadau da.

## Astudiaeth Achos

### Dyletswydd Atal a rhyddid mynegiant

Mae asesiad risg o siaradwr gwadd wedi dangos bod ganddynt hanes o gysylltu ag eithafwyr treisgar a gwneud datganiadau a allai golygu tynnu pobl i derfysgaeth. Maent wedi pellhau eu hunain o'r sylwadau hyn yn gyhoeddus ond maent yn parhau i gysylltu â grwpiau eithafol.

Yn y sefyllfa hon, roedd angen i'r darparwr ystyried y rhyngweithio rhwng rhyddid lleferydd a'r ddyletswydd Atal. Cymerodd y darparwr addysg uwch gyngor gan eu cydlynydd Atal ynghylch pa mor arwyddocaol oedd y risg a sut y gellid ei leihau. Roedd y mesurau arfaethedig i'w hystyried yn cynnwys sicrhau bod deunyddiau a roddwyd yn y digwyddiad (megis taflenni) yn cael eu gweld ymlaen llaw, neu sicrhau bod gan y digwyddiad gadeirydd cryf.

Os cytunodd y siaradwr i roi golwg ymlaen llaw ar ddeunyddiau a siarad ochr yn ochr ag unigolyn â safbwynt arall, mae'n debyg y dylai'r digwyddiad allu symud ymlaen fel y bwriadwyd. Fodd bynnag, pe na baent yn cytuno i hyn, neu os nad oedd cadeirydd neu safbwynt arall ar gael, efallai y bydd y darparwr addysg uwch wedi penderfynu bod y risg yn rhy fawr ac yn canslo neu ohirio'r digwyddiad.

Yn y sefyllfa hon, ni fyddai'r un neu'r llall penderfyniad o reidrwydd yn anghyfreithlon. Mae angen i'r sefydliad gyfiawnhau ei benderfyniad, a gwneud yn eglur y camau y mae wedi eu cymryd i gydbwyso ei gyfrifoldebau cyfreithiol, gan gymryd i gyfrif y sylw arbennig sydd rhaid ei gael i'r ddyletswydd i gymryd camau 'rhesymol ymarferol' i sicrhau rhyddid lleferydd.

## Dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus (PSED)

Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg uwch gydymffurfio â'r PSED o dan adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010.[37] Mae hon yn ddyletswydd i ystyried yr angen i:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad arall a waharddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt, ac
- annog cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt, gan gynnwys yr angen i fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth.

Y nodweddion gwarchodedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a thueddfryd rhywiol.

Mae hyn yn golygu bod cyfrifoldebau cyfreithiol gan ddarparwyr addysg uwch i feddwl am sut y gallant hyrwyddo cydraddoldeb a lleihau'r tensiwn a'r rhagfarn rhwng gwahanol grwpiau ar y campws. Mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i ddarparwyr addysg uwch ei ystyried pan fyddant yn hyrwyddo rhyddid mynegiant.

Er enghraifft, pan fydd darparwr addysg uwch yn cymryd camau i sicrhau y gall dadl ar bwnc ymwthiol fynd ymlaen – i amddiffyn rhyddid lleferydd – mae'n rhaid iddo ystyried yr effaith bosibl ar fyfyrwyr a allai deimlo eu bod yn cael eu difrïo neu eu hymyleiddio gan y safbwyntiau a fynegwyd. Dylent ystyried sut i sicrhau bod y myfyrwyr hynny yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys a'u croesawu o fewn amgylchedd y darparwr addysg uwch. Dylai darparwyr addysg uwch sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd adran 43 felly ddefnyddio'r PSED i annog cysylltiadau da, ond heb gyfyngu ar ryddid lleferydd gyfreithlon.

---

[37] Mae'r PSED yn berthnasol i sefydliadau addysg uwch a bennir yn Atodlen 19, Deddf Cydraddoldeb 2010.

## ‘Rhyddid rhag niwed’

Mae **canllawiau’r NUS** yn sôn am yr angen i gydbwyso rhyddid lleferydd â ‘rhyddid rhag niwed’. Gall rhyddid rhag niwed gyfeirio at nifer o’r dyletswyddau cyfreithiol a grybwyllir yn y canllaw hwn, gan gynnwys dyletswydd gofal undeb myfyrwyr a chyfrifoldebau i ddiogelu myfyrwyr rhag aflonyddu, gwahaniaethu a throseddau casineb anghyfreithlon

Mae hawl gan undebau myfyrwyr – ac mae’n ofynnol iddynt, i’r graddau y gallai’r lleferydd dorri’r gyfraith – ystyried y ‘niwed’ y gall barn rhywun ei achosi i rai o’u haelodau, wrth benderfynu a ddylid gwahodd siaradwr i ddigwyddiad y maent yn ei drefnu.

Fodd bynnag, os yw siaradwr eisoes wedi cael gwahoddiad gan gymdeithas neu grŵp undeb myfyrwyr ac y bydd yr araith yn gyfreithlon, bydd angen i’r undeb myfyrwyr ystyried eu rhwymedigaethau o dan god ymarfer adran 43 eu darparwr addysg uwch.  Os yw undeb myfyrwyr yn canslo siaradwr mewn amgylchiadau o’r fath, mae gan ei ddarparwr addysg uwch ddyletswydd i gymryd camau rhesymol ymarferol i sicrhau cydymffurfiaeth â chod adran 43 a sicrhau bod y digwyddiad siaradwr yn gallu symud ymlaen.




# Adran 5: Sut y gall darparwyr addysg uwch ac undebau myfyrwyr gydweithio ar ryddid lleferydd

Mae undebau myfyrwyr a darparwyr addysg uwch yn gwasanaethu'r un corff myfyrwyr ac yn aml mae ganddynt gyfrifoldebau cyfreithiol tebyg. Mae'r adran hon yn egluro sut y gallant gydweithio i gefnogi rhyddid mynegiant.

## Sut y gall darparwyr addysg uwch ac undebau myfyrwyr gydweithio ar ryddid lleferydd

Mae gan gyrff llywodraethol darparwyr addysg uwch rai cyfrifoldebau ar gyfer undebau myfyrwyr. Mae'r rhain yn cynnwys gofyniad i ddweud wrth bob myfyriwr am eu cod adran 43, a sicrhau rhyddid lleferydd (fel sy'n ofynnol gan ddyletswydd adran 43) ar safle'r undeb myfyrwyr. Rhaid iddynt hefyd gael system ar gyfer trin cwynion myfyrwyr am eu hundeb myfyrwyr.


Dylai'r cod adran 43 esbonio'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i staff, myfyrwyr ac undebau myfyrwyr eu dilyn wrth drefnu digwyddiadau. Dylai darparwyr addysg uwch ac undebau myfyrwyr geisio alinio eu polisïau a'u gweithdrefnau mewn perthynas â siaradwyr allanol, gan ystyried dyletswydd adran 43. Fodd bynnag, dylai darparwyr addysg uwch sicrhau nad yw eu cod adran 43 a pholisïau dyletswydd Atal yn creu rhwystrau dianghenraid i ryddid lleferydd.

Dylai darparwyr addysg uwch unigol a'u hundebau myfyrwyr benderfynu sut i reoli eu perthynas o fewn y gyfraith, ac mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg uwch ac undebau myfyrwyr eisoes yn gweithio gyda'i gilydd ar faterion rhyddid lleferydd a mynegiant i sicrhau eu bod yn bodloni eu dyletswyddau cyfreithiol.

Yn gyffredinol, bydd darparwyr addysg uwch ac undebau myfyrwyr am gytuno ar weithdrefnau rheoli risg, neu o leiaf deall ymagwedd ei gilydd. Dylai'r disgwyliadau fod yn glir lle gallai cyfrifoldebau'r darparwr addysg uwch a'r undeb myfyrwyr gorgyffwrdd, ac efallai y byddai'n ddefnyddiol cael strwythurau ffurfiol i fynd â'r materion at lefel uwch.

Mae Pwyllgor Cadeiryddion y Brifysgol ac NUS wedi cyhoeddi **canllawiau ar gytundebau perthynas ar gyfer darparwyr addysg uwch ac undebau myfyrwyr**. Gweler hefyd **canllawiau HEPI ar greu cod ymarfer effeithiol** a **chanllawiau Universities UK ar siaradwyr allanol**.

# Adran 6: Canllaw i ddarparwyr addysg uwch sy’n gwneud penderfyniadau ar sut i hyrwyddo rhyddid lleferydd



# Canllaw i ddarparwyr addysg uwch sy'n gwneud penderfyniadau ar sut i amddiffyn rhyddid lleferydd

Rhaid i bob darparwr addysg uwch gael **cod ymarfer** adran 43 clir sy'n cael ei ddiweddaru'n gyson. Dylai'r cod gynnwys camau clir i'w cymryd mewn perthynas â threfnu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau siaradwyr a chwestiynau ynghylch rhyddid lleferydd sy'n codi.

Y man cychwyn ddylai fod y gall unrhyw ddigwyddiad mynd yn ei flaen. Fodd bynnag, bydd rhai sefyllfaoedd lle mae angen i ddarparwyr addysg uwch fod yn bwyllog i gydbwyso eu dyletswyddau cyfreithiol eraill.

Dylent ond ystyried canslo digwyddiad os nad oes unrhyw opsiynau rhesymol i'w rhedeg.

Efallai y bydd y cwestiynau yn y siart hwn yn helpu darparwyr addysg uwch i wneud penderfyniad, yn ogystal â dilyn y camau yn eu cod ymarfer adran 43. Yn aml, nid oes un ateb cywir i'r cwestiynau hyn a bydd pob sefyllfa yn wahanol. Er y bydd yn cyd-fynd â nifer o sefyllfaoedd, nid yw'r siart yn cwmpasu popeth; dylai darparwyr addysg uwch ystyried pob dyletswydd gyfreithiol a gwneud dyfarniad yn unol â hynny.

Efallai na fydd un unigolyn yn ateb yr holl gwestiynau hyn. Er enghraifft, os yw'r digwyddiad yn cael ei gynnal gan yr undeb myfyrwyr, gallant ddilyn eu prosesau eu hunain a chynnal archwiliadau diwydrwydd dyledus ac asesiadau risg (mae gan yr NUS ei **ganllaw** ei hun ar gyfer undebau myfyrwyr ar sut i wneud hyn). Fodd bynnag, dylai'r darparwyr addysg uwch sicrhau bod dogfennaeth yn dangos bod yr holl gamau hyn wedi'u dilyn ac yn y pen draw maent yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswydd adran 43.

**1. A yw'r digwyddiad yn cwrdd â'm dyletswyddau o dan y gyfraith elusennau?**

A yw'n helpu gyda fy nibenion elusennol? (Fel rheol, bydd y rhain yn cynnwys hyrwyddo addysg a hyrwyddo ymchwiliad academaidd).

**2. A yw'r araith yn debygol o fod yn anghyfreithlon (e.e. trosedd neu aflonyddu)?**

Ydy'r unigolyn/grŵp wedi siarad yn anghyfreithlon yn y gorffennol, neu wedi dangos tebygolrwydd o wneud hynny? A yw pwnc neu ddiben y digwyddiad yn awgrymu y bydd yn anghyfreithlon, gan ystyried yn ofalus anghenion Erthygl 10?

**Os ydyw** - rydych chi'n penderfynu ei bod yn debygol y bydd yr araith yn anghyfreithlon ac ni ellir lleihau'r risg - nid oes unrhyw rwymedigaeth i adael i'r digwyddiad fynd yn ei flaen. .

Os **nad oes gennych ddigon o dystiolaeth y bydd lleferydd anghyfreithlon yn digwydd,** ond yn dal i ystyried bod risg yn bodoli, bydd angen i chi ystyried camau i leihau'r risg. Dylai'r digwyddiad fynd yn ei flaen.

**3. A ydw i wedi ystyried fy nyletswyddau cyfreithiol eraill, gan gynnwys y PSED a dyletswydd Atal?**

Er enghraifft, a yw'r araith yn debygol o beryglu tynnu pobl i derfysgaeth? A yw'n debygol o effeithio ar gysylltiadau da rhwng grwpiau?

**Os ydyw,** bydd angen i chi ystyried sut y gallwch chi leihau'r risgiau neu'r effeithiau hyn wrth ganiatáu i'r digwyddiad fynd yn ei flaen, a chofnodi'ch penderfyniad.

**Os nad oes,** dylech gofnodi sut yr ydych wedi cyrraedd y penderfyniad a pham yr oeddech yn ystyried na fyddai unrhyw risgiau nac effeithiau negyddol.

**4. A oes unrhyw rwystrau posibl eraill i atal yr araith rhag mynd yn ei flaen, megis pryderon diogelwch am brotestiadau sydd wedi'u cynllunio?**

Os oes, a allaf **gymryd camau rhesymol** ymarferol i ddileu'r rhwystrau hyn?

**Os na allwch,** nid yw'r camau'n rhesymol ymarferol – yna mae'r rhwymedigaeth i sicrhau rhyddid lleferydd a gadael i'r digwyddiad fynd yn ei flaen ddim yn berthnasol mwyach..

**Os gallwch,** gallwch roi camau rhesymol ymarferol ar waith i leihau risgiau a mynd i'r afael â rhwystrau – yna mae'n rhaid i chi gymryd y camau hynny a dylai'r digwyddiad fynd yn ei flaen..

## Beth allai 'camau rhesymol ymarferol' neu 'liniaru risg' fod?

Er mwyn cwrdd â dyletswydd adran 43 rhaid i ddarparwyr addysg uwch ystyried a oes camau rhesymol ymarferol y gallant eu cymryd i sicrhau bod lleferydd cyfreithlon yn cael ei ddiogelu.

Gall hyrwyddo trafodaeth gytbwys a herio mewn digwyddiadau yn aml leihau unrhyw risgiau cyfreithiol yn ogystal â hyrwyddo pwrpas y dyletswyddau PSED ac Atal.

Gallai camau gynnwys:

- herio siaradwyr risg uchel â safbwyntiau gwrthwynebol
- cael cadeirydd annibynnol i hwyluso digwyddiad a sicrhau bod modd clywed amrediad o safbwyntiau
- ffilmio digwyddiad i atal defnydd o araith anghyfreithlon
- sicrhau lefel uwch o ddiogelwch
- gwerthu tocynnau i ddigwyddiad i osgoi protest treisgar gan bobl nad yw'n fyfyrwyr
- gofyn i weld unrhyw ddeunyddiau hyrwyddo cyn y digwyddiad
- cael polisi sy'n nodi egwyddorion trafodaeth parchus y mae'n rhaid i siaradwyr eu dilyn
- cefnogi ac annog yr undeb myfyrwyr a chorff y myfyrwyr i gynnal dadleuon
- hyfforddi staff ar sut i hwyluso dadl gytbwys, a
- gohirio'r digwyddiad os oes angen i alluogi cymryd un neu ragor o'r camau uchod.



# Adran 7: Cwestiynau allweddol mewn perthynas â rhyddid mynegiant

Mae'r adran hon yn ateb nifer o gwestiynau sy'n ymwneud â 'thynnu platfformau', protest, 'mannau diogel' a 'rhybuddion sbardun'.

## Beth yw ‘tynnu platfformau’ ac a yw’n gyfreithlon?

Mae ‘tynnu platfformau’ wedi denu llawer o sylw’r cyfryngau ond yn aml mae’n cael ei gamddeall a’i gamddehongli.

Mae gan yr NUS **bolisi** ffurfiol Dim Platfform sy’n atal y sefydliadau y mae’n eu rhestru, y gwyddys eu bod â barnau hiliol neu ffasgaidd, rhag siarad mewn digwyddiadau NUS. Mae hefyd yn dweud na ddylai swyddogion NUS gymryd rhan mewn digwyddiadau cyhoeddus gydag aelodau o’r grwpiau hyn. Mae Cynhadledd Genedlaethol yr NUS yn penderfynu ar y polisi a’r sefydliadau a gynhwysir.

Nid yw’r NUS yn elusen ac nid yw’n ddarostyngedig i ddyletswydd adran 43. Mae’n rhydd i fabwysiadu a gorfodi ei bolisi tynnu platfformau mewn perthynas â’i weithgareddau ei hun. Nid yw polisi’r NUS yn ymestyn i undebau myfyrwyr, er bod llawer o undebau myfyrwyr wedi mabwysiadu polisïau tebyg. Maent yn cael eu siapio a’u pleidleisio arnynt gan eu haelodau, ac maent yn tueddu gwahardd grwpiau rhagnodedig (fel sy’n ofynnol yn ôl y gyfraith) ac/neu eithrio pobl neu sefydliadau sy’n gysylltiedig â ‘lleferydd casineb’, barnau ffasgaidd a/neu gefnogaeth i drais sy’n debygol o fod yn anghyfreithlon.

Defnyddir y term ‘tynnu platfformau’ weithiau i ddisgrifio penderfyniadau unigol i beidio â gwahodd siaradwr penodol. Nid yw’r rhain yn bolisïau ‘dim platfform’.

Gall ymddiriedolwyr fabwysiadu polisïau i beidio â gwahodd unigolion neu grwpiau penodol, er enghraifft, i ddiogelu enw da’r undeb myfyrwyr, diogelu lles myfyrwyr, ac i atal arian rhag cael ei ddefnyddio at ddiben nad yw er budd y cyhoedd. Fodd bynnag, pe bai grŵp myfyrwyr neu aelod o staff yn gwahodd siaradwr o sefydliad sy’n destun polisi ‘dim platfform’ ac mae’r undeb myfyrwyr, eu swyddogion neu fyfyrwyr eraill yn ceisio eu hatal rhag siarad, rhaid i’r darparwr addysg uwch benderfynu a yw’r araith wedi’i ddiogelu gan ddyletswydd adran 43. Os felly, mae gan y darparwr addysg uwch ddyletswydd gyfreithiol i gymryd camau i’w galluogi i siarad.

Dylai undebau myfyrwyr fod yn ymwybodol y gallai creu gwaharddiad ar gyfer rhai grwpiau neu unigolion a enwir dorri cod ymarfer adran 43 darparwr addysg uwch a thanseilio’r hawl i ryddid mynegiant. Mewn perthynas ag unigolion a enwir, dylai undebau myfyrwyr fod yn ofalus ynghylch y risg o atebolrwydd am ddifenwi, a allai ei roi yn groes i rwymedigaethau’r gyfraith elusennau trwy ddatgelu ei asedau a’i enw da i risg.

## Astudiaeth Achos

Mae undeb myfyrwyr yn ystyried gwahodd awdur i drafod cydraddoldeb rhywiol. Mae ganddo bolisi o beidio â gwahodd siaradwyr sy'n defnyddio'r hyn y mae'n ei alw'n 'lleferydd casineb'. Wrth gynllunio, maent yn darganfod bod yr awdur wedi siarad ar gyfryngau cymdeithasol am ei gred bod menywod sydd â Thystysgrif Cydnabod Rhywedd yn ddynion o hyd. Mae swyddog yr undeb myfyrwyr sy'n trefnu'r ddadl yn penderfynu bod barn yr awdur yn gyfystyr â lleferydd casineb trawsffobig, ac yn cyhoeddi ar Twitter eu bod wedi penderfynu peidio â gwahodd yr awdur. Mae'r awdur yn cwyno bod penderfyniad yr undeb myfyrwyr i 'dynnu'r platfform' yn torri ei hawl i ryddid mynegiant.

Nid yw'r awdur wedi cael gwahoddiad i siarad eto, ac, gan nad oes dyletswydd gyfreithiol ar yr undeb myfyrwyr i'w wahodd, nid oes unrhyw doriad rhyddid lleferydd yr awdur wedi digwydd.

Fodd bynnag, pe bai cymdeithas gysylltiedig neu fyfyrwyr eraill yn gwahodd yr un siaradwr i siarad, ni all yr undeb myfyrwyr eu hatal rhag gwneud hynny gan fod barn y siaradwr yn gyfreithlon. Byddai hyn yn ymgymryd â dyletswydd adran 43 y darparwr addysg uwch i amddiffyn  rhyddid lleferydd, wedi'i lywio gan hawliau Erthygl 10 y myfyrwyr a'r siaradwr i roi a derbyn syniadau.

## A all myfyrwyr brotestio digwyddiadau heb dorri hawl y siaradwr i ryddid mynegiant?

Mae protestiadau mewn addysg uwch yn aml yn digwydd mewn perthynas â digwyddiadau sy'n cael eu cynnal gan ddarparwyr addysg uwch ac undebau myfyrwyr. Mae'r hawl i brotestio yn anfwriadol yn rhan hanfodol o gymdeithas ddemocrataidd, ac yn ffordd y gall unigolion ddefnyddio eu hawl i ryddid mynegiant. Oherwydd hyn, mae'n cael ei hamddiffyn gan Erthygl 10.

Dros ddegawdau, mae darparwyr addysg uwch wedi cynnal traddodiad o fyfyrwyr sy'n trefnu ralïau, cynnal gwrth-ddigwyddiadau a phrotestiadau eistedd i mewn i brotestio am faterion y maent yn frwdfrydig amdanynt. Fodd bynnag, efallai y bydd achlysuron pan fo aflonyddwch yn stopio siaradwr rhag siarad yn rhydd; dylai darparwyr addysg uwch gymryd camau i sicrhau nad yw hyn yn digwydd mewn digwyddiadau. Efallai y bydd darparwyr addysg uwch am ystyried gweithio gyda'u corff myfyrwyr i gefnogi protestio tawel, gan ei wneud yn glir na ddylai protest fod ar draul hawl pobl eraill i ryddid mynegiant.

Cyfeiriwyd at bryderon am ddiogelwch a diogelwch pobl fel y rheswm dros ganslo rhai digwyddiadau yn y gorffennol. Er bod hyn weithiau'n rheswm dilys dros ganslo digwyddiad, mae dyletswydd adran 43 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg uwch gymryd pob cam 'rhesymol ymarferol' i alluogi'r digwyddiad fynd yn ei flaen, a allai gynnwys cynyddu mesurau diogelwch.

## Astudiaeth Achos

Trefnir digwyddiad gan gymdeithas sy'n gysylltiedig ag undeb myfyrwyr atheist i ddadlau a yw Duw yn bodoli. Cyn y digwyddiad, mae pobl yn cwyno na ddylai fynd yn ei flaen oherwydd bod rhai o safbwyntiau'r grŵp a deunyddiau ymgyrchu yn dramgwyddus i unigolion â chrefydd neu gred. Mae'r digwyddiad yn digwydd, ond caiff ei darfu gan siantio a gweiddi gan weithredwyr myfyrwyr ffydd yn y gynulleidfa. Yn y pen draw, caiff y rhai sy'n ymgyrchwyr eu hebrwng oddi ar y safle gan staff diogelwch, a chaiff y digwyddiad ei gohirio.

Nid yw'r farn a fynegwyd gan y siaradwyr a'r protestwyr yn anghyfreithlon; mae'r ddau yn cael eu diogelu gan ddyletswydd adran 43. Ond mae angen cydbwyso'r hawliau i ryddid mynegiant aelodau'r gymdeithas myfyrwyr atheist, trwy alluogi'r digwyddiad i fynd yn ei flaen, a hawl yr ymgyrchwyr myfyrwyr ffydd i brotestio.

Roedd y Darparwr Addysg Uwch yn gwybod y bod gwrthwynebiad i'r digwyddiad, ac roedd o dan ddyletswydd i gymryd pob cam “rhesymol ymarferol” i sicrhau y gallai'r digwyddiad fynd rhagddo. Gallai hyn fod wedi cynnwys darparu diogelwch ychwanegol i sicrhau y gellid symud protestwyr oddi yno petaent yn gwrthod gadael neu stopio'u protest ar ôl iddynt gael cyfle rhesymol i fynegi'u safbwyntiau, neu archwilio gyda'r gymdeithas p'un ai a oedd digwyddiad lle ceid amrywiaeth o farnau yn achlysur amgenach fwy ymarferol.

Fel mater sy'n achosi gwrthdaro ar y campws rhwng grwpiau o unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, mae'r PSED yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr addysg uwch ystyried pa gamau y gall gymryd i sicrhau bod anffyddwyr yn teimlo eu bod yn gallu ac yn ddiogel wrth drefnu digwyddiadau yn y dyfodol, ac i hyrwyddo cysylltiadau da rhwng anffyddiwr a myfyrwyr crefyddol ar y campws.

Bu pryderon hefyd y gall protest arwain at aflonyddu neu ddychryn myfyrwyr. Os yw'r gweithredoedd neu'r safbwyntiau a fynegir gan brotestwyr yn torri'r gyfraith, yna nid ydynt yn cael eu diogelu gan ddyletswydd adran 43.

## Astudiaeth Achos

Mae grŵp o fyfyrwyr yn trefnu protest mewn ardal gyhoeddus ar y campws, chwifio baneri a dosbarthu taflenni sy'n beirniadu polisïau gwladwriaeth Israel. Yn ystod y brotest mae myfyriwr yn difetha baner Israel gyda swastika, ac yn gwneud saliwtio fel Natsi.

Mae swyddogion diogelwch y Brifysgol yn ymwybodol o'r protest, ond maent yn penderfynu gadael iddo barhau gan nad oes neb yn bygwth trais neu anhrefn yn erbyn unigolyn penodol.  Yn ddiweddarach, gwneir cwynion i'r darparwr addysg uwch bod y saliwt Natsïaidd a difetha'r faner yn wrth-Semitig a dylai'r protest wedi cael ei atal i amddiffyn myfyrwyr Iddewig rhag gelyniaeth wrth-Semitig ar y campws.

Er bod myfyrwyr â'r hawl i ddosbarthu taflenni a phrotestio mewn ffordd heddychlon a chyfreithlon, efallai y bydd defnyddio saliwt Natsïaidd a dinistrio'r faner yn gyfystyr â throsedd trefn gyhoeddus a/neu drosedd ysgogi casineb hiliol neu grefyddol, oherwydd cysylltiad y Natsïaid â gwrth-Semitiaeth ac erchyllterau yn erbyn pobl Iddewig, gan gynnwys yr Holocost.

Dylai'r darparwr addysg uwch fod wedi penderfynu a oedd gweithredoedd y myfyriwr unigol yn gysylltiedig â'r protest ehangach. Pe bai hyn wedi'i wneud gan un unigolyn, byddai ei dynnu o'r protest a chaniatáu i'r protest cyfreithiol barhau yn debyg o daro'r cydbwysedd cywir rhwng atal gweithredoedd anghyfreithlon a diogelu rhyddid lleferydd.

Pan benderfynodd y darparwr addysg uwch a ddylid gadael i'r protest fynd ymlaen, dylent fod wedi ystyried pa gamau y dylent eu cymryd i sicrhau nad yw myfyrwyr Iddewig ar y campws yn teimlo eu bod yn cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn nac eu bod yn cael eu haflonyddu, ac yn hyrwyddo cysylltiadau da rhwng myfyrwyr Iddewig a'r rhai nad ydynt yn Iddewig, i gydymffurfio â'r PSED.

## A oes rhaid i ddarparwyr addysg uwch gymryd camau disgyblu yn erbyn protestwyr sy’n tarfu ar ryddid lleferydd?

Pan fydd grŵp myfyrwyr yn cwyno i ddarparwr addysg uwch bod grŵp arall â barn sy’n gwrthwynebu yn tarfu ar eu rhyddid, er enghraifft, trwy gynnal protestiadau aflonyddgar, gall darparwr addysg uwch gymryd camau disgyblu yn erbyn protestwyr sy’n fyfyrwyr, os yw hwn yn gam priodol y gallant ei gymryd i sicrhau cydymffurfiaeth â’u cod adran 43 ac amddiffyn rhyddid lleferydd.

Bydd angen i’r darparwr addysg uwch ystyried a yw achosion disgyblu yn briodol, a pha gamau eraill y gall eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth â’u cod adran 43. Dylent ymchwilio’r cwyn a sicrhau eu bod yn rhoi parch llawn i hawl y protestwyr i ryddid mynegiant, a dyletswydd y darparwr addysg uwch i amddiffyn rhyddid lleferydd, cyn cymryd camau disgyblu. Os yw’r protestiadau wedi cynnwys camau anghyfreithlon, megis troseddau trefn gyhoeddus, yna gall camau disgyblu fod yn briodol. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio camau disgyblu i atal protest cyfreithlon a ddiogelir gan ddyletswydd adran 43 ac Erthygl 10.

Dylai’r PSED lywio penderfyniad y darparwr addysg uwch ar sut i fynd i’r afael â’r cwyn. Hyd yn oed os nad yw camau disgyblu’n briodol, efallai y bydd camau y gall y darparwr addysg uwch eu cymryd i hyrwyddo cysylltiadau da rhwng myfyrwyr, ac atal gwahaniaethu ac aflonyddu ar y campws.

Mae rhai darparwyr addysg uwch yn mynnu bod myfyrwyr yn arwyddo codau ymddygiad sy’n eu rhwystro rhag gweithredu mewn ffordd sy’n effeithio ar fuddiannau’r darparwr addysg uwch neu sy’n niweidio ei enw da. Rhaid i ddarparwyr addysg uwch beidio â dibynnu ar god ymddygiad i gymryd camau disgyblu yn erbyn myfyriwr lle maen nhw’n ystyried bod protest gan fyfyrwyr neu ddatganiad cyhoeddus wedi niweidio enw da’r darparwr addysg uwch, os bydd hyn yn ymyrryd â hawl y myfyriwr i ryddid mynegiant. Ni ddylai achosion disgyblu mewn perthynas â lleferydd ddigwydd oni bai bod y darparwr addysg uwch o’r farn bod y lleferydd yn anghyfreithlon. Fel arall, mae’n debyg y bydd y darparwr addysg uwch yn torri ei ddyletswydd adran 43.

## Beth yw 'mannau diogel' ac a ydynt yn cael eu caniatáu?

Mae gan rai undebau myfyrwyr bolisïau 'man diogel', sy'n anelu at greu amgylcheddau croesawgar, cynhwysol ar y campws, a sicrhau bod pobl â nodweddion gwarchodedig penodol yn rhydd rhag aflonyddu a gwahaniaethu. Mewn rhai achosion, mae mannau diogel hefyd yn cyfeirio at unigolion yn cyfarfod sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (e.e. grŵp menywod neu grŵp LGBT+) lle gall pobl sy'n rhannu'r nodwedd honno yn unig fod yn bresennol.

Dyfynnwyd mannau diogel fel rheswm pam y gall undebau myfyrwyr gyfyngu ar ryddid mynegiant, er bod enghreifftiau gwirioneddol yn anodd eu darganfod. Nid yw creu 'man diogel' yn anghyfreithlon, ond dylid cymryd gofal wrth weithredu unrhyw bolisïau mewn ffordd 'gyffredinol', er enghraifft, ar draws y campws, i sicrhau nad ydynt yn cyfyngu ar ryddid mynegiant.

### Astudiaeth Achos

Mae grŵp sy'n galw ei hun yn 'Laddism Reborn' yn gwneud cais i'r undeb myfyrwyr i dderbyn aelodaeth gyswllt, fel y gall gael cyllid a defnyddio cyfleusterau'r undeb myfyrwyr ar gyfer ei weithgareddau. Nod y grŵp yw hyrwyddo 'diwylliant yr hogiau', gan annog 'tynnu coes' rhywiaethol a homoffobaidd, yfed trwm ac aflonyddu rhywiol merched ar ei ddeunydd hyrwyddo (taflenni printiedig a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol).

Mae'r undeb myfyrwyr yn gwrthod, gan fynegi ei farn bod y grŵp yn gamogynistaidd ac yn nodi ei nod i greu 'mannau diogel' ar gyfer pob myfyriwr gan ddefnyddio ei bolisi dim goddefgarwch i aflonyddu rhywiol a pholisi cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn ogystal â'i ymrwymiad cyffredinol i sicrhau lles myfyrwyr. Mae'n nodi bod gan y darparwr addysg uwch bolisïau tebyg mewn perthynas â'r materion hyn. Mae'r undeb myfyrwyr hefyd yn gwrthod caniatáu i'r grŵp i hyrwyddo ei hun trwy roi taflenni mewn adeiladau neu ar hysbysfyrddau ar y campws. Mae'r grŵp yn datgan bod ei hawl i ryddid mynegiant yn cael ei thorri.

Caniateir i'r undeb myfyrwyr gael polisi i amddiffyn aelodau rhag aflonyddu, gan gynnwys ar sail rhyw. Er bod yr NUS yn annog undebau myfyrwyr i gymryd ymagwedd gytbwys wrth ganiatáu aelodaeth gyswllt, mae'n bosibl y gall penderfyniad i beidio â chymeradwyo a darparu cyllid ar y sail na fyddai'n cydymffurfio â'i rwymedigaeth yn y gyfraith elusennau i ddefnyddio ei asedau er budd y cyhoedd, neu hyrwyddo ei nod elusennol o hyrwyddo lles myfyrwyr, gael ei gyfiawnhau.

Mae'n bosibl yr oedd pryder roedd y diffyg cysylltiad yn torri cod adran 43 y darparwr addysg uwch, ond nid yw Erthygl 10 nac adran 43 yn ei gwneud yn ofynnol i undeb myfyrwyr gynnig cyllid a chefnogaeth i unrhyw grŵp penodol.

Oherwydd y byddai dosbarthiad taflenni a defnyddio hysbysfyrddau mewn man cyhoeddus, lle nad yw pobl wedi dewis mynd i glywed am y grŵp, gellid gweld hyn fel aflonyddu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Pe bai'r deunydd hyrwyddo yn anghyfreithlon, ni fyddai gan y darparwr ddysg uwch unrhyw rwymedigaeth o dan ddyletswydd adran 43 i ofyn i'r undeb myfyrwyr adael i'r grŵp hysbysebu ar hysbysfyrddau cyhoeddus neu ddosbarthu ei daflenni ar eu safle.

Gallai'r myfyrwyr barhau i gwrdd fel 'Laddism Reborn'. Fodd bynnag, gellir gwneud niwed i enw da'r darparwr addysg uwch, a gallai aelodau'r grŵp wynebu camau disgyblu os yw eu barn mor sarhaus ac yn wahaniaethol yn erbyn menywod nad yw Erthygl 10 neu ddyletswydd adran 43 yn eu hamddiffyn.

## A all undeb myfyrwyr wrthod aelodaeth gyswllt i gymdeithasau penodol?

Mae pryderon ynghylch a yw gwrthod aelodaeth gyswllt grŵp neu gymdeithas benodol yn undeb myfyrwyr yn gwrthod rhyddid lleferydd. Y rheswm am hyn yw y byddai gwrthod yn golygu na fyddai gan rai grwpiau myfyrwyr fynediad at y cyllid a'r adnoddau y mae grwpiau eraill yn eu cael.

Mae Deddf Addysg 1994 yn ei gwneud yn ofynnol i undebau myfyrwyr gael system i ddyrannu adnoddau i grwpiau neu glybiau, sy'n deg, yn ysgrifenedig ac yn hygyrch i bob myfyriwr.

## Astudiaeth Achos

Mae grŵp gwrth-erthylu yn gofyn am aelodaeth gyswllt yn yr undeb myfyrwyr. Mae'r undeb myfyrwyr yn cynghori ei fod yn cyfyngu ar ddeunydd hyrwyddo, megis y defnydd o ddelweddau sy'n debygol o achosi ofid, fel amod cymeradwyaeth.

Mae'r grŵp yn gwrthod cytuno i'r amodau felly mae'r undeb myfyrwyr yn gwrthod aelodaeth. Mae'r grŵp yn teimlo bod ei ryddid mynegiant yn cael ei gyfyngu ac yn cwyno i'r darparwr addysg uwch a'r Comisiwn Elusennau.

Nid oes gan undebau myfyrwyr rwymedigaeth gyfreithiol i dderbyn aelodaeth pob grŵp sy'n gwneud cais iddynt, cyhyd â bod ei benderfyniad wedi'i resymu'n dda ac wedi'i gyfiawnhau. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd gan aelodau'r grŵp sy'n chwilio am aelodaeth nodwedd warchodedig benodol (er enghraifft, crefydd neu gred). Os yw hynny'n wir, bydd angen i'r undeb myfyrwyr sicrhau nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn y grŵp yn seiliedig ar y nodwedd warchodedig honno, trwy wrthod aelodaeth.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r undeb myfyrwyr gael polisi clir sy'n esbonio ei werthoedd a'i ethos a sut mae'r rhain yn cefnogi ei amcanion elusennol, a fyddai'n dangos lle nad yw'r grŵp hwn yn cyd-fynd â hwy, ac i wneud dadansoddiad gofalus i benderfynu a yw peidio â chaniatáu aelodaeth i'r grŵp yw'r penderfyniad gorau.

## A yw Undebau Myfyrwyr yn gallu gwrthod i rai grwpiau gael mynediad i ffair y glas?

Mae ffair y glas yn ddigwyddiad preifat ac mae'r mwyafrif yn cael eu rheoli gan undeb myfyrwyr.

Fel arfer da, dylai undeb myfyrwyr sicrhau bod amrywiaeth eang o farnau yn cael eu cynrychioli yn ffeiriau'r glas, ond nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt roi llwyfan i bob barn, ac nid ydynt o dan unrhyw rwymedigaeth i wahodd grwpiau penodol, er enghraifft, gallant gyfyngu cyfranogiad i grwpiau sydd ag aelodaeth undeb myfyrwyr. Fodd bynnag, os yw'r ffair y glas yn agored i bawb sydd â diddordeb mewn cael stondin, ac os bydd cais grŵp neu unigolyn penodol wedi cael ei wrthod yn seiliedig, er enghraifft, ar eu barn neu eu credoau, byddai angen i'r undeb myfyrwyr ystyried a yw'r penderfyniad i wrthod mynediad iddynt yn gwahaniaethu yn eu herbyn ar sail nodwedd warchodedig. Byddai angen i'r rhiant ddarparwr addysg uwch hefyd benderfynu a yw hyn yn torri ei ddyletswydd adran 43 ac a ddylid cymryd camau i sicrhau na chaiff stondin ei wrthod ar y sail hon.

## Astudiaeth Achos

Mae grŵp asgell dde yn gwneud cais ac yn talu am le i hyrwyddo 'hunaniaeth Gristnogol Brydeinig' mewn nifer o ffeiriau glas ledled y DU. Mae tri sefydliad yn gwrthod ei gais. Mae'r gwrthodiadau'n nodi gwahanol resymau, fel nad yw'r sefydliad yn rhoi gwybodaeth ddiduedd i fyfyrwyr, ei fod yn hyrwyddo mater nad yw'n addas ar gyfer ffair y glas neu fod y pwnc yn sensitif iawn yn wleidyddol. Mae'r sefydliad yn gwneud cwyn i swyddfa'r myfyrwyr yn datgan bod eu hawl i ryddid mynegiant yn cael ei thorri gan gael ei wrthod lle yn y ffeiriau.

Daw swyddfa'r myfyrwyr i'r casgliad nad yw'r dystiolaeth yn rhoi sail iddynt ymyrryd. Byddai swyddfa'r myfyrwyr yn pryderu pe bai pob ymdrech gan grŵp penodol i siarad ar y campws yn cael ei wrthod yn systematig dros gyfnod o amser; fodd bynnag, nid yw'n rheoleiddio undebau myfyrwyr nac yn ymdrin â chwynion unigol amdanynt. Maent yn nodi hyn yn eu hymateb i'r sefydliad, gan esbonio nad oedd y dystiolaeth yn dangos torri rhyddid mynegiant y sefydliad hwn yn systematig a dylai cwynion unigol gael eu codi trwy sianeli'r undeb myfyrwyr.

Yn eu penderfyniad, maent yn cymryd i ystyriaeth nad oes rhaid i undebau myfyrwyr gyflwyno gwahoddiad neu gynnig lle i sefydliadau allanol, nid yw dyletswydd adran 43 y ddarparwr addysg uwch cyfrifol yn berthnasol. Nid oes gan yr undeb myfyrwyr hefyd rwymedigaeth i sicrhau bod pob barn yn cael ei gynrychioli yn eu digwyddiadau, er na ddylent wahaniaethu'n anghyfreithlon. Os canfuwyd bod unrhyw un o'r undebau myfyrwyr yn gwrthod stondin i'r sefydliad oherwydd nodwedd warchodedig, fel crefydd neu gred neu ryw, gallai hyn fod yn gwahaniaethu anghyfreithlon.

Mae swyddfa'r myfyrwyr hefyd yn ymgynghori â'r Comisiwn Elusennau, sy'n dod i'r casgliad nad oes tystiolaeth o dorri cyfraith elusennau.

## Beth yw 'rhybuddion sbardun'? Ydyw'n gyfreithlon defnyddio?

Defnyddir rhybuddion sbardun i roi gwybod i bobl fod y pynciau ar y gweill â chynnwys y gallai rhai ohonynt ei ystyried yn ofidus neu'n anodd. Er enghraifft, mae rhai darparwyr addysg uwch yn defnyddio rhybuddion sbardun i nodi y gall y deunydd gynnwys golygfeydd neu gyfeiriadau at drais rhywiol. Trwy rybuddio mynychwyr digwyddiadau am natur y barnau y byddant efallai'n cael eu mynegi, gall rhybuddion sbardun helpu i hwyluso rhyddid lleferydd trwy alluogi dadl gytbwys heb achosi aflonyddwch. Gall pobl a allai ystyried y safbwyntiau yn sarhaus neu'n ofidus wneud penderfyniad gwybodus i aros neu adael.

Er y gall rhybuddion sbardun arwain rhai myfyrwyr i ddewis peidio â chymryd rhan mewn dadlau neu drafodaethau, nid yw'r camau gweithredu yn atal unrhyw beth rhag cael ei drafod gan y rhai sydd am fynychu. Fodd bynnag, dylai trefnwyr digwyddiadau feddwl am sut y gellir darparu rhybuddion sbardun mewn ffordd nad yw'n peryglu troi pobl i ffwrdd rhag cymryd rhan yn ddiangen.

## Sut y gall unigolion adrodd am bryder?

Os yw unigolyn – boed yn staff, yn fyfyriwr neu'n aelod o'r cyhoedd – yn pryderu am weithredoedd darparwr addysg uwch, y cam cyntaf yw codi hyn gydag uwch reolwyr y darparwr addysg uwch. Dylai unigolion allu cysylltu naill ai â'r tîm cyfathrebu, neu swyddfa'r is-ganghellor (neu gyfwerth). Os yw'r ymateb yn anfoddhaol, gellir gwneud cwyn ffurfiol i'r darparwr addysg uwch.

Unwaith y bydd gweithdrefnau cwyno eu darparwr addysg uwch wedi dod i ben, gall myfyrwyr fynd â chwynion heb eu datrys ynghylch rhyddid lleferydd i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA). Bydd yr OIA yn asesu sut mae'r darparwr wedi ystyried y gŵyn; p'un a oedd yn unol â'i weithdrefnau ac a oedd y gweithdrefnau hynny yn deg. Bydd hefyd yn ystyried a oedd y penderfyniad terfynol yn deg ac yn rhesymol o ystyried yr amgylchiadau.

Os yw'r pryder yn ymwneud ag undeb myfyrwyr, y cam cyntaf yw codi'r mater gyda naill ai llywydd neu Brif Swyddog Gweithredol yr undeb myfyrwyr. Os yw'r ymateb yn anfoddhaol, gall yr unigolyn wneud cwyn i'r rhiant ddarparwr addysg uwch neu fynd i'r rheoleiddiwr, y Comisiwn Elusennau.

## Proses hysbysu swyddfa'r myfyrwyr

Mae swyddfa'r myfyrwyr yn cyflwyno proses hysbysu ar gyfer cyhuddwyr neu eraill i roi gwybod am faterion sy'n peri pryder; bydd hyn yn cynnwys hysbysiadau mewn perthynas â rhyddid lleferydd.

Bydd swyddfa'r myfyrwyr yn defnyddio unrhyw wybodaeth berthnasol i benderfynu a oes unrhyw faterion ehangach a systematig sy'n golygu bod rhyddid lleferydd yn cael ei atal naill ai mewn darparwr addysg uwch penodol neu'n ehangach ar draws y sector addysg uwch. Gall swyddfa'r myfyrwyr gymryd camau i sicrhau bod y darparwr yn gweithredu yn unol ag egwyddor llywodraethu buddiannau cyhoeddus yn fframwaith rheoleiddio swyddfa'r myfyrwyr ac mae nifer o gamau y gallai swyddfa'r myfyrwyr eu cymryd os yw rhyddid lleferydd yn cael ei atal. Dim ond ar ôl ystyried yn ofalus y bydd y rhain yn cael eu defnyddio.

Nid corff datrys cwynion yw swyddfa'r myfyrwyr: bydd yn ystyried cwynion fel cudd-wybodaeth ynghylch a yw darparwyr mewn perygl o dorri amodau, ond ni fydd yn cyflafareddu nac yn dyfarnu ar anghydfodau unigol.

Ceir rhagor o wybodaeth am sut y bydd swyddfa'r myfyrwyr yn rheoleiddio mewn perthynas â rhyddid mynegiant yn **Atodiad A.**

# Atodiad A: Rheoleiddio darparwyr addysg uwch ac undebau myfyrwyr mewn perthynas â rhyddid lleferydd

Mae yna reoleiddwyr gwahanol ar gyfer darparwyr addysg uwch ac undebau myfyrwyr:

- Mae Swyddfa'r Myfyrwyr yn rheoleiddio darparwyr addysg uwch yn Lloegr ac hefyd yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd Atal a'r Gyfraith Elusennau.[38]
- Rheolir darparwyr addysg uwch yng Nghymru gan y Comisiwn Elusennau, mewn perthynas â'u rhwymedigaethau o dan y gyfraith elusennau, ac mae'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd Atal.
- Caiff undebau myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr eu rheoleiddio'n uniongyrchol gan y Comisiwn Elusennau a rhaid iddynt ddilyn y canllawiau y mae'n eu cynhyrchu.

Mae rheoleiddwyr yn cyflawni swyddogaethau cyhoeddus ac yn ddarostyngedig i Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r PSED. Rhaid i bob rheoleiddiwr ystyried y rhwymedigaeth i amddiffyn rhyddid lleferydd ochr yn ochr â dyletswyddau a hawliau eraill, gan gofio bod gan leferydd sy'n ennyn diddordeb y cyhoedd, yn enwedig trafodaeth a fwriedir i roi gwybodaeth a gwneud sylwadau gwleidyddol, lefel uchel o amddiffyniad dan Erthygl 10.

Mae ein cyd-reoleiddwyr yn nodi isod sut maent yn gweithio i gynnal rhyddid lleferydd.

## Swyddfa'r Myfyrwyr

Mae Swyddfa'r Myfyrwyr yn rheoleiddio darparwyr addysg uwch Lloegr. Fe'i sefydlwyd gan Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 a bydd ei drefn reoleiddio newydd ar waith o 1 Awst 2019.

Mae rôl Swyddfa'r Myfyrwyr i gynnal rhyddid lleferydd yn gweithredu ar lefel darparwyr yn ogystal â lefel y sector. Bydd hefyd yn ystyried ei ddyletswydd gyffredinol i ystyried yr angen i ddiogelu annibyniaeth sefydliadol. Mae'n ymrwymedig i weithio gyda'r sector addysg uwch i sicrhau bod rhyddid lleferydd a thrafodaeth yn parhau'n rhan annatod o brofiad addysg uwch y DU.

---

[38] Mae'r rhan fwyaf o brifysgolion Lloegr a darparwyr addysg uwch yn 'elusennau eithriedig', fel y nodir yn Atodlen 3 i Ddeddf Elusennau 2011. Rhaid i elusennau sydd wedi'u heithrio cydymffurfio â chyfraith elusennau ond maent wedi'u heithrio rhag cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau ac, o 1 Ebrill 2018 ymlaen, maent wedi'u rheoleiddio gan Swyddfa'r Myfyrwyr.

Mae fframwaith rheoleiddio Swyddfa'r Myfyrwyr yn esbonio sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau rheoliadol ac yn ymarfer ei bwerau; mae'r fframwaith hwn hefyd yn cynnwys mesurau i amddiffyn rhyddid lleferydd.

Fel amod cofrestru gyda Swyddfa'r Myfyrwyr, disgwylir i ddarparwyr gadw at restr o egwyddorion llywodraethu buddiannau cyhoeddus; mae'r rhain yn cynnwys gofyniad bod corff llywodraethu darparwr yn 'cymryd y camau sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau bod rhyddid lleferydd o fewn y gyfraith wedi'i sicrhau yn y darparwr'.

Fel rhan o'i asesiad o ddarparwyr yn ystod y broses gofrestru, mae Swyddfa'r Myfyrwyr yn sicrhau bod dogfennau llywodraethu darparwr yn cynnal egwyddor 'rhyddid lleferydd' llywodraethu buddiannau cyhoeddus.

Lle nad yw'r trefniadau hyn yn cwrdd â gofynion sylfaenol, gall Swyddfa'r Myfyrwyr ymyrryd a gwneud sancsiynau lle bo'r rhain yn cael eu hystyried yn angenrheidiol.

Pan adroddir ar faterion sy'n peri pryder neu dystiolaeth o dorri cyflwr cofrestru posibl (neu risg uwch o beidio â chydymffurfio â chyflwr cofrestru), bydd Swyddfa'r Myfyrwyr yn ymateb yn gymesur, yn seiliedig ar y risg. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai ystod o ymyriadau gan Swyddfa'r Myfyrwyr ar gael, gan gynnwys monitro gwell, gosod amodau cofrestru penodol, neu gosb. Bydd Swyddfa'r Myfyrwyr yn anelu at nodi a oes tystiolaeth gredadwy i gefnogi'r pryder ond nad yw'n gallu ymchwilio i anghydfod cyflogaeth unigol neu gyfunol.

Gall Swyddfa'r Myfyrwyr hefyd gyhoeddi manylion y camau rheoleiddiol a gymerwyd lle torrwyd amod cofrestru.

Mae Swyddfa'r Myfyrwyr hefyd yn gyfrifol am fonitro gweithrediad y ddyletswydd Atal mewn addysg uwch i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau darparwyr addysg uwch yn ddigonol, yn effeithiol ac yn gymesur, ac yn cydbwyso'n briodol eu dyletswyddau Atal a rhyddid lleferydd.

Fel y prif reoleiddiwr ar gyfer darparwyr addysg uwch yn Lloegr, mae'n rhaid i Swyddfa'r Myfyrwyr hefyd hyrwyddo cydymffurfiaeth ymddiriedolwyr elusennau â chyfraith elusennau a monitro cydymffurfiad â'r gyfraith elusennau. Fodd bynnag, nid oes gan Swyddfa'r Myfyrwyr unrhyw bwerau i orfodi cyfraith elusennau. Gall ofyn i'r Comisiwn Elusennau agor ymholiad os yw'n credu nad yw darparwr addysg uwch yn cydymffurfio â chyfraith elusennau. Rhaid i'r Comisiwn Elusennau ymgynghori â Swyddfa'r Myfyrwyr cyn defnyddio unrhyw un o'i bwerau mewn perthynas â darparwyr addysg uwch.

## Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Mae addysg uwch wedi'i datganoli yng Nghymru. Er bod Deddf Addysg Uwch (Rhif 2) 1986 yn cwmpasu darparwyr addysg uwch yng Nghymru, maent hefyd yn ddarostyngedig i'r darpariaethau yn Neddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, sy'n darparu fframwaith rheoleiddio penodol sy'n cael ei oruchwylio gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

Mae dyletswyddau CCAUC yn cynnwys monitro cydymffurfiaeth darparwyr addysg uwch â chynlluniau ffioedd a mynediad, ac asesu ansawdd yr addysg a ddarperir, gan gynnwys cymryd i ystyriaeth bwysigrwydd rhyddid academaidd. Maent hefyd yn gyfrifol am fonitro gweithrediad y ddyletswydd Atal mewn addysg uwch yng Nghymru, a sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau darparwyr addysg uwch yn cydbwyso eu dyletswyddau Atal a rhyddid lleferydd. Fodd bynnag, er bod darparwyr addysg uwch yng Nghymru yn ddarostyngedig i ddyletswydd adran 43 ac mae'n rhaid iddynt gadw cod ymarfer, nid oes gan CCAUC rôl reoleiddiol wrth sicrhau rhyddid lleferydd.

Rhaid i ddarparwyr addysg uwch elusennol yng Nghymru gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau ac maent yn ddarostyngedig i'w gofynion. Mae CCAUC a'r Comisiwn Elusennau yn gweithio gyda'i gilydd i rannu gwybodaeth a chydlynu eu gweithgareddau rheoleiddio.

## Y Comisiwn Elusennau

Y Comisiwn Elusennau yw cofrestrydd a rheoleiddiwr elusennau yng Nghymru a Lloegr, ac mae'n gyfrifol am gynnal y gofrestr elusennau. Mae'r Comisiwn Elusennau wedi'i chyfansoddi fel adran llywodraeth an-weinidogol, yn annibynnol rhag dylanwad gweinidogol ac o elusennau. Mae ganddo nifer o swyddogaethau lled-farnwrol.

O dan Ddeddf Elusennau 2011, yng Nghymru a Lloegr, mae sefydliad yn elusen os caiff ei sefydlu at ddibenion elusennol yn unig er budd y cyhoedd ac mae'n dod o fewn awdurdodaeth yr Uchel Lys ynghylch elusennau.

Mae undebau myfyrwyr elusennol yn elusennau annibynnol, sydd, ers 2010, wedi gorfod cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau os yw eu hincwm yn fwy na £100,000. Cydnabyddir undebau myfyrwyr elusennol gydag incwm o £100,000 neu lai fel 'elusennau eithriedig' ac, er nad ydynt yn gorfod cofrestru neu gyflwyno ffurflenni blynyddol, maent yn dal i gael eu rheoleiddio gan y Comisiwn Elusennau.

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg uwch elusennol Lloegr yn 'elusennau eithriedig', fel y nodir yn Atodlen 3 i Ddeddf Elusennau 2011. Rhaid i elusennau sydd wedi'u heithrio cydymffurfio â chyfraith elusennau ond nid oes rhaid iddynt gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau. O dan Ddeddf Elusennau 2011, mae'n rhaid i elusennau sydd wedi'u heithrio cael 'prif reoleiddiwr' i'w rheoleiddio. Y prif reoleiddiwr ar gyfer darparwyr addysg uwch Lloegr yw Swyddfa'r Myfyrwyr. Mae elusennau eithriedig yn dal i fod yn ddarostyngedig i bwerau galluogi, ymchwilio a gorfodi'r Comisiwn Elusennau, er bod rhaid i'r Comisiwn Elusennau ymgynghori â'r prif reoleiddiwr cyn defnyddio unrhyw un o'i bwerau.

Yng Nghymru, mae prifysgolion a darparwyr addysg uwch eraill hefyd wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau ac yn cael eu rheoleiddio ganddo.

Mae canllaw'r Comisiwn Elusennau **'Yr Ymddiriedolwr Hanfodol: yr hyn y mae angen i chi ei wybod, yr hyn y mae angen i chi ei wneud (CC3)'** yn egluro cyfrifoldebau cyfreithiol a dyletswyddau allweddol pob ymddiriedolwr elusennau yng Nghymru a Lloegr. Mae'r dyletswyddau hynny yn cynnwys bod gan yr ymddiriedolwyr rhwymedigaethau i:

- weithredu yn unol â dibenion yr elusen er budd y cyhoedd
- gweithredu er lles gorau'r elusen
- gweithredu'n rhesymol a darbodus, a
- diogelu ac amddiffyn asedau'r elusen, gan gynnwys ei enw da.

Mae canllawiau eraill y Comisiwn Elusennau y mae'n ofynnol i bob ymddiriedolwr elusen gydymffurfio â hwy, yn cynnwys:

- **Canllawiau ymgyrchu a gweithgarwch gwleidyddol i elusennau (CC9)**
- **Pennod 5 - Diogelu elusennau rhag niwed: pecyn cymorth cydymffurfio**

# Atodiad B: Troseddau perthnasol

Mae'r cyfreithiau sy'n gosod cyfyngiadau ar ryddid mynegiant yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys:

Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
- troseddau wedi'u hysgogi gan hil neu grefydd (adrannau 29 – 32)

Deddf Troseddau yn erbyn y Person 1861:
- bygythiad i ladd (adran 16)

Deddf Cyfarfod Cyhoeddus 1908:
- ymdrechu i darfu ar gyfarfod cyhoeddus (adran 1)

Deddf Trefn Gyhoeddus 1986:
- ofn neu ysgogi trais (adran 4)
- aflonyddu, larwm neu ofid bwriadol (adran 4A)
- aflonyddu, larwm neu ofid (heb fwriad) (adran 5)
- gweithredoedd a fwriedir neu sy'n debygol o annog casineb ar sail hil (adrannau 18-23); crefydd (adrannau 29B-29f); neu gyfeiriadedd rhywiol (adrannau 29B-29f)

Deddf Troseddu Difrifol 2007:
- annog neu gynorthwyo cyflawni trosedd (adrannau 44-46)

Deddf Terfysgaeth 2000:
- ysgogi i gyflawni gweithredoedd terfysgaeth dramor (adran 59)
- gwahodd neu annog cefnogaeth i sefydliad a ragnodir (adran 12)

Deddf Terfysgaeth 2006:
- annog terfysgaeth (adran 1) gan gynnwys gogoneddu y comisiwn paratoi terfysgaeth (is adran 1 (3) )
- lledaenu cyhoeddiadau terfysgol (adran 2)
- annog terfysgaeth a lledaenu cyhoeddiadau terfysgol drwy'r rhyngrwyd (adran 3)

# Atodiad C: Darparwyr addysg uwch a dyletswyddau cyfreithiol

Defnyddiwch y tabl hwn i weld pa ddyletswyddau cyfreithiol a all fod yn berthnasol i'ch sefydliad. Oherwydd ystod amrywiol a natur gyfreithiol darparwyr addysg uwch a newidiadau i ddeddfwriaeth, nid yw'n gynhwysfawr. Os nad ydych chi'n siŵr pa ddyletswyddau sy'n berthnasol i'ch sefydliad, dylech geisio eich cyngor cyfreithiol eich hun.

| Dyletswydd gyfreithiol | Cyrff addysg uwch y mae'r ddyletswydd gyfreithiol yn berthnasol iddynt: |
|---|---|
| Adran 6 Deddf Hawliau Dynol 1998 | PRhaid i 'awdurdodau cyhoeddus' gydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, gan gynnwys Erthygl 10.<br>Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg uwch a ariennir yn gyhoeddus yn debygol o fod yn 'awdurdodau cyhoeddus' mewn cysylltiad â hyrwyddo rhyddid mynegiant i'w myfyrwyr, aelodau, gweithwyr a siaradwyr sy'n ymweld.[39] |
| adran 43 (1) Deddf Addysg (Rhif 2) 1986 (dyletswydd i sicrhau rhyddid lleferydd o fewn y gyfraith) | Mae hyn yn berthnasol i sefydliadau a restrir yn adran 43(5) Deddf Addysg 1986[40] sy'n cynnwys unrhyw brifysgol, a cholegau prifysgol. Mae hefyd yn cynnwys (yn fras) pob darparwr addysg uwch sy'n derbyn arian cyhoeddus yn uniongyrchol. Pan ddaw adran 43(4A) o Ddeddf Addysg 1986 i rym, bydd y ddyletswydd yn cynnwys pob darparwr sydd wedi'i gofrestru gyda Swyddfa'r Myfyrwyr.<br>Mae'r ddyletswydd adran 43 yn berthnasol yn anuniongyrchol i weithgareddau undeb myfyrwyr y darparwr addysg uwch cyfrifol trwy ofynion i gydymffurfio â chod ymarfer adran 43 y darparwr addysg uwch, er enghraifft, mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng yr undeb myfyrwyr a'r darparwr addysg uwch, neu fel amod defnydd o eiddo'r darparwr addysg uwch.<br>Gall codau disgyblu darparwyr addysg uwch hefyd ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr gydymffurfio â chod ymarfer adran 43. |
| Cyfraith elusennau | Mae undebau myfyrwyr a darparwyr addysg uwch sy'n elusennau yn ddarostyngedig i gyfraith elusennau. |

[39] Gweler troednodyn 1.

[40] Bydd Adran 43 (5) yn cael ei diwygio gan Atodlen 11, paragraff 5 Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 pan ddaw i rym, sy'n cwmpasu unrhyw ddarparwr addysg uwch a gofrestrwyd gyda Swyddfa'r Myfyrwyr.

| Dyletswydd gyfreithiol | Cyrff addysg uwch y mae'r ddyletswydd gyfreithiol yn berthnasol iddynt: |
|---|---|
| Aflonyddu o dan adran 26 Deddf Cydraddoldeb 2010 | Mae undebau myfyrwyr, cymdeithasau/clybiau a darparwyr addysg uwch sy'n gweithredu fel darparwyr gwasanaethau (Rhan 3 Deddf Cydraddoldeb 2010) neu gymdeithasau (Rhan 7 Deddf Cydraddoldeb 2010) yn cael eu gwahardd rhag aflonyddu sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig oed, anabledd, ailbennu rhywedd, hil neu ryw (nid yw nodweddion gwarchodedig crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol yn cael eu cynnwys yn y darpariaethau aflonyddu yn y cyd-destunau hyn).<br><br>Mae darparwyr addysg uwch neu undebau myfyrwyr fel cyflogwyr (Rhan 5 Deddf Cydraddoldeb 2010), a darparwyr addysg uwch fel darparwyr addysg (Rhan 6 Deddf Cydraddoldeb 2010)[41] yn cael eu gwahardd rhag aflonyddu sy'n gysylltiedig ag oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. |
| Gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol o dan adrannau 13 ac 19 Deddf Cydraddoldeb 2010 | O dan y rhannau perthnasol o'r Ddeddf a nodir yn yr adran aflonyddu uchod, ni ddylai darparwyr addysg uwch ac undebau myfyrwyr wahaniaethu'n uniongyrchol nac anuniongyrchol wrth weithredu fel darparwyr gwasanaethau, cymdeithasau na chyflogwyr. Rhaid i ddarparwyr addysg uwch hefyd beidio â gwahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o dan y Ddeddf yn eu rôl fel darparwyr addysg. |
| Dyletswydd Atal o dan adran 26 (1) o Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 | Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i 'awdurdodau penodedig' a restrwyd yn Atodlen 6 Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, sy'n cynnwys y rhan fwyaf o ddarparwyr addysg uwch. |
| Dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 | Mae hyn yn berthnasol i ddarparwyr addysg uwch sy'n 'awdurdodau cyhoeddus' a restrir yn Atodlen 19 Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn cynnwys darparwyr addysg yn y sector addysg uwch fel y'i diffinnir yn Adran 91(5) Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, prifysgolion sy'n derbyn cyllid grant, a darparwyr addysg uwch eraill sy'n gymwys i dderbyn cyllid grant yn uniongyrchol. |

[41] O dan a.94(5) Deddf Cydraddoldeb 2010, mae hyn yn gymwys i sefydliadau addysg uwch wedi'i ddiffinio yn a.91 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

# Darllen pellach

**Campaigning and political activity guidance for charities (CC9), Y Comisiwn Elusennau:** https://www.gov.uk/government/publications/speaking-out-guidance-on-campaigning-and-political-activity-by-charities-cc9

**Cracking the code: a practical guide for university free speech policies, The Higher Education Policy Institute:** https://www.hepi.ac.uk/2018/07/19/cracking-code-practical-guide-university-free-speech-policies/

**Delivering the Prevent duty in a fair and proportionate way: a guide for higher education providers in England, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:** https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/delivering-prevent-duty-proportionate-and-fair-way

**External speakers in higher education institutions, Universities UK:** https://www.universitiesuk.ac.uk/policy-and-analysis/reports/Pages/external-speakers-in-higher-education-institutions.aspx

**Freedom of Expression Legal Framework, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:** https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/freedom-expression-legal-framework

**Gender segregation at events and meetings: guidance for Universities and Students' Unions, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:** https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/gender-segregation-events-and-meetings-guidance-universities-and-students

**Ymchwiliad y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol i ryddid lleferydd mewn prifysgolion:** https://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/joint-select/human-rights-committee/inquiries/parliament-2017/inquiry/

**Managing the risk associated with external speakers - England and Wales, NUS:** https://www.nusconnect.org.uk/resources/managing-the-risks-associated-with-external-speakers-england-and-wales

**Polisi Dim Platform:** https://www.nusconnect.org.uk/resources/nus-no-platform-policy-f22f

**Canllawiau Dyletswydd Atal ar gyfer sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a Lloegr, Llywodraeth EM:** https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/445916/Prevent_Duty_Guidance_For_Higher_Education__England__Wales_.pdf

**Protecting charities from abuse for extremist purposes, Y Comisiwn Elusennau:** https://www.gov.uk/government/publications/protecting-charities-from-abuse-for-extremist-purposes/chapter-5-protecting-charities-from-abuse-for-extremist-purposes

**Public Sector Equality Duty guidance, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol :** https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/public-sector-equality-duty-guidance

**The essential trustee: what you need to know, what you need to do (CC3), Y Comisiwn Elusennau:** https://www.gov.uk/government/publications/the-essential-trustee-what-you-need-to-know-cc3

**What equality law means for you as a student in further or higher education, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:** https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/what-equality-law-means-you-student-further-or-higher-education

# Cysylltau

Mae'r cyhoeddiad hwn a'r adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael gennym **gwefan**.

Gellir cyfeirio cwestiynau a sylwadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at: **correspondence@equalityhumanrights.com**. Croesawn eich adborth.

I gael gwybodaeth am gael mynediad at un o'n cyhoeddiadau mewn fformat arall, cysylltwch â: **correspondence@equalityhumanrights.com**.

Cadwch y wybodaeth ddiweddaraf am ein newyddion, ein digwyddiadau a'n cyhoeddiadau diweddaraf trwy ymuno â'n **e-gylchlythyr**.

# EASS

Am gyngor, gwybodaeth neu arweiniad ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori a Chefnogaeth Cydraddoldeb, gwasanaeth am ddim ac annibynnol.

| | |
|---|---|
| Ffôn | **0808 800 0082** |
| Ffôn testun | **0808 800 0084** |
| Oriau | **09:00 tan 19:00 (Llun i Wener)**<br>**10:00 tan 14:00 (Sadwrn)** |
| Post | **FREEPOST EASS HELPLINE FPN6521** |

© 2019 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyhoeddwyd Chwefror 2019
ISBN: 978-1-84206-777-2

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Gallwch chi lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn oddi wrth

www.equalityhumanrights.com

© 2019 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyhoeddwyd Chwefror 2019
ISBN: 978-1-84206-777-2

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission